# Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi 2011/2012

## CRYNODEB

Yn ystod 2011-12, fe wnaeth Arolygiaeth Prawf EM:

- barhau i wneud cynnydd da gyda threfnu arolygiadau rheolaidd y tymor hirach yn brydlon ar waith troseddau ieuenctid ac oedolion:
  - cwblhau'r Rhaglen Arolwg Achosion Craidd o waith ar droseddau ieuenctid, lle'r ydym wedi arolygu agweddau allweddol ar waith ar droseddau ieuenctid ym mhob un (erbyn hyn) o'r 158 Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) dros gyfnod o dair blynedd
  - cwblhau 11 arolwg arall fel rhan o'r gwaith arolygu troseddau oedolion, sy'n arolygu gwaith ym mhob Ymddiriedolaeth Brawf NOMS dros gyfnod o dair blynedd, ac y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn hydref 2012. Yn ogystal, fe wnaethom gwblhau 21 arolwg o reoli troseddwyr mewn carchardai, ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai EM.
- ar arolygiadau thematig ar y cyd, fe wnaethom gyhoeddi adroddiadau thematig ar y cyd dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM ar ferched yn y System Cyfiawnder Troseddol (CJS) ac ar Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA). Ar droseddau ieuenctid, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad thematig ar y cyd ar ymyriadau, a chyfrannu'n sylweddol at yr adroddiadau ar y cyd a gyhoeddwyd ar ofal iechyd yn y gymuned i bobl ifanc sy'n troseddu, Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant yng Nghymru, ac ar Oedolion Priodol a Llety Awdurdodau Lleol dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.
- parhau i roi sylw manwl yn ein rhaglenni arolygu ar faterion tebyg i'w gilydd ym maes Diogelu'r Cyhoedd a Diogelu (neu 'Amddiffyn') Plant.
- paratoi cynlluniau ar gyfer rhaglenni arolygu newydd fydd i ddechrau yn dilyn diwedd y rhaglenni rheolaidd cyfredol. Bydd ein gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar asesu ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith mewn sampl o achosion unigol, pwy bynnag sy'n ei gyflawni. Mae'r prif agweddau eraill ar y rhaglenni newydd yn cynnwys rhagor o bwyslais ar ganlyniadau, ac ar gyflawni ymyriadau.

Yn ei rhagair i'r Adroddiad Blynyddol, mae Liz Calderbank, y Prif Arolygydd Prawf, yn nodi'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid, yn enwedig y rhai sydd wedi eu cynnwys yn yr adolygiad prawf. Gallai'r adolygiad ddarparu llwyfan ar gyfer gwaith y gwasanaeth prawf yn y dyfodol, ond bydd ei lwyddiant yn dibynnu ar ddatblygu a gweithredu'r cynigion yn ofalus, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â rheoli'r risg o niwed i eraill, a swyddogaeth y rheolwr troseddwyr. Bydd rhaglenni arolygu Arolygiaeth Prawf EM yn y dyfodol yn ystyried y newidiadau arfaethedig. Bydd yr Arolygiaeth yn parhau â'i diben eglur o hyrwyddo gwaith sy'n fwriadol ac yn effeithiol wrth fynd ati i newid ymddygiad, lleihau aildroseddu a diogelu'r cyhoedd.

# RHAGAIR

## Liz Calderbank, Prif Arolygydd Prawf EM

Prif nodwedd y flwyddyn ddiwethaf yn hanes y gwasanaethau prawf, cyfiawnder ieuenctid a'r arolygiaeth oedd y sôn am newid.

Dechreuodd y flwyddyn i ni yn yr Arolygiaeth gydag ymddeoliad Andrew Bridges, y Prif Arolygydd ar y pryd. Gan hynny, rwy'n falch iawn o'r cyfle hwn i roi teyrnged iddo am ei waith yn fy Adroddiad Blynyddol cyntaf. Yn ystod ei saith blynedd wrth y llyw fel Prif Arolygydd, llwyddodd Andrew i bennu cyfeiriad yr Arolygiaeth yn fedrus, gan sicrhau fod pwyslais penodol ar ddiogelu'r cyhoedd.

Yn achos y gwasanaeth prawf, bu llawer o'r sylw yn ail hanner y flwyddyn ar yr adolygiad prawf a gyhoeddwyd ddiwedd Mawrth 2012. Cododd yr adolygiad nifer o faterion sydd, pan aed i'r wasg, yn parhau i fod yn destun ymgynghoriad eang.

Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r sylw a roddwyd i leihau aildroseddu a'r posibilrwydd o weithio mewn ffyrdd newydd â'r rhai a droseddodd. Rydym yn credu y gallai'r cynigion yn yr adolygiad gynnig llwyfan ar gyfer gwaith y gwasanaeth prawf yn y dyfodol. Er hynny, mae angen penderfynu ar nifer o bethau o ran gweithredu'r cynllun. Gallai'r newidiadau arfaethedig newid ffurfwedd y gwaith gyda'r rhai sydd wedi troseddu yn fawr iawn yn y dyfodol, ac unwaith y byddai'r newidiadau yn cael eu gwneud, gellid colli rhai agweddau ar y gwasanaeth presennol, heb fodd i'w hadsefydlu, o bosibl. Gan hynny, mae'r adolygiad yn rhoi llawer o gyfrifoldeb ar bawb ohonom i wneud pethau'n iawn.

Fel bob amser, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd. Fel rydym wedi dweud yn gyson dros y blynyddoedd, mae'n amhosibl cael gwared â'r risg yn llwyr wrth weithio gyda'r rhai sydd wedi troseddu. Ni ellir rhwystro unigolyn penderfynol neu amhwyllog bob amser rhag cyflawni Troseddau Pellach Difrifol hyd yn oed os ydynt yn y ddalfa, ond rydym yn disgwyl i'r rhai sy'n gweithio gyda'r unigolion hynny wneud popeth rhesymol y gellir ei wneud i leihau'r perygl ohonynt yn peri niwed i eraill gymaint â phosibl.

Mae'r risg y bydd unigolyn yn peri niwed i eraill bob amser yn debygol o newid dros amser. Mae gennym rai pryderon bod yr adolygiad yn cynnig bod y gwaith o reoli'r rhai sydd wedi troseddu, ac sy'n cael asesiad cychwynnol eu bod yn gymharol beryglus i eraill, o bosibl yn cael ei roi ar gontract i amrywiaeth o ddarparwyr gwahanol. Achosion lle mae perygl canolig sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o Droseddau Pellach Difrifol. Pan aiff pethau o'u lle, rydym yn gwybod yn sgil ein profiad o arolygu bod hynny fel arfer yn digwydd naill ai oherwydd bod rhywun heb gydnabod ffactorau a allai nodi perygl cynyddol i eraill, neu heb gyfleu'r newidiadau hyn i weithwyr perthnasol eraill. Mae ffactorau o'r fath, er enghraifft, yn cynnwys methu cymryd meddyginiaeth hanfodol, lefelau uwch o yfed neu ailgysylltu â chymdeithion annymunol.

Mae ein harolygon wedi dangos bod y posibilrwydd o gyfathrebu gwael yn cynyddu wrth i nifer y gweithwyr sy'n ymwneud ag achos penodol gynyddu. Mae gwaith y rheolwr troseddwyr yn rheoli'r broses hon yn hanfodol, a bydd angen i'r cynigion yn yr adolygiad gael eu hegluro a'u datblygu'n sylweddol os ydynt am weithio'n dda.

Bydd llwyddiant yr adolygiad yn dibynnu ar sut bydd yn cael ei weithredu, ac yn ein barn ni, mae angen i hynny ddigwydd yn ofalus. Byddai'n resyn petai'n cyflwyno'r un faint o ddarnio gwaith gyda'r rhai sydd wedi troseddu y mae mentrau diweddar wedi ymdrechu mor galed i geisio ei ddatrys. Rydym yn ymrwymedig i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a'r Ymddiriedolaethau Prawf, gan ddefnyddio ein profiad o arolygiadau, er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd.

Mae gan yr adolygiad prawf a'i chwaer-bapur, yr adolygiad o ddedfrydau cymunedol, oblygiadau sylweddol ar ein prosesau arolygu. Mae ein profiad o arolygu rheoli troseddwyr mewn carchardai, gyda'n cydweithwyr yn Arolygiaeth Carchardai EM, wedi ein galluogi i amlygu anghysonderau yng ngwaith y carchardai yn diwygio carcharorion. Fe wnawn barhau i roi sylw i'r agwedd bwysig hon ar eu gwaith, gan gymhwyso'r un disgwyliadau sydd gennym o reoli troseddwyr i'r carchardai ag yr ydym yn ei wneud i wasanaethau prawf sy'n gweithio yn y gymuned.

Ym mis Gorffennaf 2012, gydag arolwg Cymru, byddwn yn cwblhau ein hail raglen o arolygu rheoli troseddwyr. Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu ei olynydd, a fydd yn para tan 2017, ac felly bydd angen iddo fod yn ddigon hydwyth i adlewyrchu'r newidiadau a ddaeth yn sgil yr adolygiad prawf. Bydd yn rhoi sylw i waith a wnaed gydag oedolion sydd wedi troseddu, heb ystyried pwy gyflawnodd y gwaith, ac mae'n cael ei ddylunio i'n galluogi ni i wneud cymariaethau rhwng darparwyr gwahanol. Bydd pob cam o'r arolwg yn rhoi sylw i faes gwaith penodol, ac fel bob amser, bydd yn canolbwyntio ar ansawdd yr ymarfer. Nid ydym yn gweld ein hunain yn gweithredu fel rheolyddion neu fel monitoriaid cydymffurfio â chontractau, ond rydym yn credu y dylai darparwyr eraill gael yr un lefel o graffu â'r hyn y mae'r gwasanaethau prawf wedi ei gael yn y gorffennol. Arolygu yw'r unig ffordd gost-effeithiol o ddarparu archwiliadau manwl o arferion rheng flaen. Y mae hefyd yn arf grymus i sicrhau ansawdd cyson y gwasanaeth.

Mae ein harolygon o waith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu wedi dangos sut gall arolygu hyrwyddo gwelliannau sylweddol mewn arferion. Fe wnaethom gwblhau gwaith maes ar y Rhaglen Arolwg Achosion Craidd, a roddodd sylw i bob un o'r 158 tîm troseddau ieuenctid, ym mis Mawrth 2012, a bydd yr adroddiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi yn yr haf. Cynhaliwyd yr arolygon hyn ar adeg pan oedd nifer o Dimau Troseddau Ieuenctid yn wynebu gostyngiadau sylweddol yn eu cyllidebau, ac nid yw effaith hynny wedi cael ei wireddu'n llawn eto. Er ein bod wedi canolbwyntio'n bennaf ar y gwaith a wnaed gan Dimau Troseddau Ieuenctid i ddiogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu, fe welsom sut mae newidiadau yn y gymdeithas a diffyg gobaith yn gallu effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc; yn ogystal, fe welsom bwysigrwydd gwaith gwasanaethau eraill, fel iechyd ac addysg, er mwyn cadw'r cydbwysedd.

Rydym yn nodi'r holl faterion uchod yn ein rhaglenni arolygu newydd, ac fel o'r blaen, bydd llawer o hynny'n cael ei gynnal ar y cyd â chydweithwyr o Arolygiadau Cyfiawnder Troseddol a Gofal Cymdeithasol eraill. Yn y cyfnod prysur hwn, mae'n bwysig bod gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r rhai sy'n troseddu yn ateb y gofyn ac yn newid ymddygiad yn effeithiol, gan ostwng aildroseddu a diogelu'r cyhoedd. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn parhau i weld ei diben yn glir fel hyrwyddwyr gwaith o'r fath.

# 1 BLWYDDYN AROLYGIAETH PRAWF EM

## Trosolwg

**1.1**

Yn ystod blwyddyn 2011-12, fe wnaethom gynnal yr holl waith arolygu a gynlluniwyd gennym yn brydlon. Drwy wneud hynny, gwnaethom gynnydd da ar ein rhaglenni arolygu tymor hirach rheolaidd ar waith ar droseddau ieuenctid ac oedolion:

- fe wnaethom gwblhau arolygon dan ein Harolygon Achosion Craidd (CCI) o waith troseddau ieuenctid - lle buom yn arolygu agweddau allweddol ar waith yn ymwneud â throseddau ieuenctid ym mhob un (erbyn hyn) o'r 158 Tîm Troseddau Ieuenctid (YOTau) dros gyfnod o dair blynedd o fis Ebrill 2009 ymlaen - gan gynnal 53 arolwg ac un ail arolwg yn 2011-12. (Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhennod 3.)
- dan ein harolwg o waith troseddau oedolion (OMI 2) – lle rydym yn arolygu gwaith ym mhob Ymddiriedolaeth Brawf NOMS dros gyfnod o dair blynedd ers Medi 2009 – fe wnaethom gwblhau 11 arolwg arall, yn unol â'r amserlen. Mae disgwyl i'r rhaglen gael ei chwblhau ym mis Gorffennaf 2012. Yn ogystal, fe wnaethom gwblhau 21 arolwg o reoli troseddwyr mewn carchardai, ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai EM. (Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhennod 2.)

Yn ogystal, fe wnaethom ddatblygu cynlluniau ar gyfer rhaglenni arolygu dilynol, a fydd yn dechrau yn ystod 2012-13.

**1.2**

Fe wnaethom barhau i chwarae rhan amlwg mewn arolygiadau thematig, ar y cyd ag asiantaethau Cyfiawnder Troseddol eraill ac Arolygiaethau eraill, o ran gwaith yn ymwneud â throseddau oedolion ac ieuenctid. O ran gwaith gydag oedolion, cyhoeddwyd adroddiadau thematig ar y cyd, dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM, ar ferched yn y CJS ac ar Drefniadau Amlasiantaethol i Ddiogelu'r Cyhoedd (MAPPA). O ran troseddau ieuenctid, fe wnaethom gyhoeddi adroddiadau thematig ar y cyd ar ymyriadau, dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM, a chyfrannu'n sylweddol at yr adroddiadau ar y cyd a gyhoeddwyd ar ofal iechyd yn y gymuned i bobl ifanc sy'n troseddu, Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant yng Nghymru, ac ar Oedolion Priodol a Llety Awdurdodau Lleol dan PACE. Byddwn yn cyhoeddi nifer o adroddiadau thematig eraill yn gynnar yn 2012-13.

**1.3**

Fe wnaethom barhau i roi sylw blaenllaw ym mhob un o'n rhaglenni arolygu i faterion sydd â chysylltiad agos, sef gwaith Diogelu'r Cyhoedd a Diogelu (neu 'Amddiffyn') Plant (gweler Pennod 6). Ymysg pethau eraill, fe wnaethom ddatblygu ein trefniadau ymhellach i wella ansawdd ymarfer mewn Diogelu'r Cyhoedd a gwaith arall drwy feincnodi ansawdd gwaith.

**1.4**

Gyda'i gilydd, yn ystod 2011-12 fe wnaethom gymryd rhan mewn 93 arolwg (y rhan fwyaf dan ein harweiniad ni), a chyhoeddi 67 adroddiad ar arolygon. Rhoddir manylion am yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn Atodiad D.

**1.5**
Mae'r penodau dilynol yn rhoi rhagor o fanylion am ein gwaith arolygu ar bob un o'r rhaglenni y cyfeirir atynt uchod. Mae'r bennod hon yn disgrifio rhai o brif ddatblygiadau ein gwaith arolygu yn gyffredinol, a chyd-destun ein gwaith, gan gynnwys ein gwaith ar y cyd ag Arolygiaethau eraill. Y mae hefyd yn cyfeirio at ein gwaith yn darparu cyngor ac yn cysylltu â sefydliadau sydd â diddordeb yn ein gwaith. Yna, mae'n rhoi adroddiad byr ar rai datblygiadau yn y ffordd rydym yn trefnu ein hunain er mwyn cynnal ein busnes.

## Prif Arolygydd Prawf

**1.6**
Ymddeolodd Andrew Bridges fel y Prif Arolygydd ddiwedd mis Mai 2011. Cyn ei ymddeoliad, rhoddodd ddarlith ymadawol ym Mhrifysgol Rhydychen ar 16 Mai dan y teitl 'Prawf a gwaith Troseddau Ieuenctid: Teyrnged i'r rhai sy'n ei wneud yn dda'. Roedd nifer fawr yn bresennol, ac roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn, gydag araith feddylgar gan Andrew yn adlewyrchu ei wybodaeth ddofn o waith prawf a throseddau ieuenctid. Mae'r anerchiad ar ein gwefan.

**1.7**
Ym mis Medi 2011, penodwyd Liz Calderbank yn Brif Arolygydd dros dro.

## Diben arolygu

**1.8**
Ein bwriad yw y dylai gwaith Arolygiaeth Prawf EM fod â dau brif fudd:

- sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd bod trefn arolygu annibynnol ar waith i sefydlu pa un ai a yw gwaith troseddau oedolion ac ieuenctid yn cael ei gyflawni'n effeithiol
- gwella ansawdd ac effeithiolrwydd y gwaith rydym yn ei arolygu. Mae gwaith arolygu yn darparu buddiannau gwelliant pryd bynnag y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i adroddiadau arolygu.

## Sylfaen graidd arolygon

**1.9**
Mae craidd ein gwaith arolygu yn parhau i ymwneud ag asesu ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith troseddau oedolion a phobl ifanc mewn sampl gynrychioliadol o achosion penodol unigolion sydd wedi troseddu. Ar ôl arolygu'r sampl, rydym yn barnu pa un ai a oedd gwaith yn cael ei wneud yn ddigon da gyda'r unigolyn i gyflawni'r canlyniadau gofynnol ym mhob achos.

**1.10**
Rydym hefyd o'r farn y dylai arolygiadau fod yn gymesur, gan ganolbwyntio ar agweddau allweddol ar waith lle mae arolygiadau uniongyrchol yn gwneud asesiadau na ellir eu gwneud yn hwylus drwy ddulliau eraill. Gan adlewyrchu hyn yn rhannol, rydym yn rhoi sylw blaenllaw yn ein gwaith arolygu ar y materion sydd â chysylltiad agos rhyngddynt, sef Diogelu'r Cyhoedd a Diogelu Plant, fel y nodwyd ym mharagraff 1.3.

**1.11**

Yn unol â'r dulliau uchod, mae'r ddwy raglen arolygu prif feysydd yn cynnwys sgoriau 'pennawd' sy'n cynrychioli cyfran y gwaith yn y sampl, ar agweddau allweddol y gwaith, lle'r ydym yn teimlo ein bod wedi gwneud yn ddigon da. O ran OMI 2 a CCI, mae sgoriau pennawd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer gwaith i leihau risg i eraill, a gwaith i leihau'r tebygrwydd o aildroseddu. Yn achos OMI 2, mae sgôr pennawd am gydymffurfiaeth a gorfodaeth hefyd yn cael ei gynhyrchu, ac yn achos CCI, sgôr pennawd am waith Amddiffyn (Diogelu Plant). Ein bwriad yw y bydd 'sgoriau pennawd' tebyg hefyd yn cael eu cynnwys yn ein rhaglenni arolygu newydd.

**Arolwg ar y cyd ar y System Cyfiawnder Troseddol**

**1.12**

Mae Arolygiaeth Prawf EM wedi parhau i chwarae rhan amlwg yn y gwaith rhwng yr Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol ar y bwriad i gynnal Rhaglen Arolygu ar y cyd bob blwyddyn, gan gynnwys y rhai ar gyfer y Rhaglen Arolygu ar y cyd yn ystod 2012-14 (sydd ar gael ar ein gwefan). Fe wnaeth mwyafrif helaeth ein gwaith arolygu yn 2011-12 barhau i fod yn waith arolygu ar y cyd o ryw fath, gan weithio gydag arolygiaethau partner mewn cyfuniadau gwahanol. Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd yn arwain gwaith, gydag Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM, i sefydlu gwefan arolygiadau cyfiawnder troseddol ar y cyd, a fydd yn gartref i adroddiadau arolygiadau thematig ar y cyd.

**Rhaglenni arolygu newydd**

**1.13**

Rydym yn paratoi cynlluniau ar gyfer rhaglenni arolygu newydd i ddechrau yn dilyn diwedd CCI ac OMI 2 (gweler hefyd yr adrannau penodol isod). Bydd sylw ein gwaith yn parhau i fod ar asesu ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith mewn sampl o achosion unigol, heb ystyried pwy sy'n ei gyflawni, a bydd hyn yn neilltuol o bwysig yn amgylchedd tebygol y dyfodol, pan fydd amrywiaeth o ddarparwyr. Mae prif agweddau eraill ar y rhaglenni newydd yn cynnwys rhagor o bwyslais ar ddeilliannau, ac ar gyflawni ymyriadau. Yn ogystal, wrth ganolbwyntio ar arferion mewn achosion unigol, fe wnawn ni hefyd ystyried pa un ai a ydi trefniadau rheoli, arwain, partneriaethau a chomisiynu yn cyfrannu at arferion da.

**1.14**

Wrth gynllunio ar gyfer ein rhaglenni arolygu newydd, rydym hefyd yn ystyried nifer o ddatblygiadau pwysig, ac yn cadw golwg ar y datblygiadau hynny, yn enwedig cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer gwaith prawf. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu trefniadau comisiynu, yn lleol ac yn genedlaethol; talu yn ôl canlyniadau; y Rhaglen Ymgysylltu â Throseddwyr; yr adolygiad prawf; a'r cynlluniau cyffredinol ar gyfer Trawsffurfio Cyfiawnder.

**Cyfathrebu ein canlyniadau arolygu**

**1.15**

Rydym yn ceisio sicrhau bod canfyddiadau ein harolygon yn glir ac ar gael yn rhwydd. Y prif fodd o wneud hyn yw'r adroddiadau rydym yn eu cyhoeddi. I'r perwyl hwn, rydym yn ymwybodol nad yw'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennym wedi bod mor glir a hygyrch ag y gallent fod bob amser. Rydym yn ceisio rhoi

sylw i hyn yn y rhaglenni arolygu newydd, gan ystyried cynnwys a fformat ein hadroddiadau, i sicrhau bod canfyddiadau yn cael eu cyflwyno a'u hegluro'n glir.

**1.16**
Dull arall o gyfathrebu ein canfyddiadau yw trwy ein gwefan. Yn ystod 2011-12, cafodd ein gwefan ei hadolygu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) fel rhan o waith ail weithredu cyffredinol ar y wefan Gyfiawnder, yn dilyn trefniadau strwythur a llywio a ddefnyddiwyd ar y wefan Gyfiawnder yn gyffredinol. Fe wnaethom geisio sicrhau bod y deunydd ar wefan Arolygiaeth Prawf EM yn glir a hygyrch.

### Gostyngiadau yn y gyllideb
**1.17**
Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus, mae angen i Arolygiaeth Prawf EM wneud ei chyfran deg o ostyngiadau yn ei chyllideb. Rydym yn gweithio dan delerau cyllideb wedi ei gostwng yn 2012-13 ac yn y blynyddoedd dilynol.

### Gwerthuso arolygiadau gan sefydliadau rydym yn arolygu eu gwaith
**1.18**
Mae Arolygiaeth Prawf EM yn ceisio sicrhau ei bod yn achosi cyn lleied â phosibl o waith ychwanegol i'r sefydliadau rydym yn arolygu eu gwaith, gan ddeillio o ganlyniad i'r broses arolygu. Yn y cyswllt hwn, ar gyfer pob arolwg CCI ac OMI 2, mae'r Rheolwr YOT neu'r Prif Weithredwr Gwasanaeth Prawf dan sylw yn cael ei wahodd, i lenwi holiadur byr ar ran eu sefydliad ar ôl yr arolwg, gan gynnwys eu gwerthusiad o'r broses arolygu.

**1.19**
O gyfanswm o 48 holiadur a ddychwelwyd yn sgil arolygon CCI ac OMI 2 (gyda'i gilydd) yn 2011-12:

- Roedd 96% o'r sefydliadau yn gwbl glir neu'n glir iawn beth oedd angen iddynt ei wneud i gynllunio ar gyfer yr arolwg
- Ar y cyfan, roedd 98% yn gwbl fodlon neu'n fodlon ar y cyfan gyda'r trefniadau cynllunio cyn yr arolwg gydag Arolygiaeth Prawf EM
- Roedd 91% yn gwbl fodlon neu'n fodlon ar y cyfan gydag ymddygiad y tîm arolygu
- Roedd 98% yn gwbl fodlon neu'n fodlon ar y cyfan bod unrhyw gais a wnaed gan y staff arolygu yn ystod yr arolwg yn rhesymol
- Yn gyffredinol, roedd 94% yn gwbl fodlon neu'n fodlon ar y cyfan gyda'r modd y rheolwyd yr arolwg.

### Trefniadau adrannol
**1.20**
Mae Arolygiaeth Prawf EM yn parhau i gael ei chynnal gan y MoJ, ac er dibenion MoJ. Mae dogfen fframwaith, sy'n amlinellu'r berthynas rhwng Arolygiaeth Prawf EM a'r MoJ, ar gael ar ein gwefan.

**Cynghori a Chysylltu**
**1.21**
Er mai ein prif ddiben yw arolygu annibynnol, mae gennym waith arwyddocaol hefyd yn darparu cyngor i Weinidogion, swyddogion ac eraill. Yn ystod 2011-12, rydym wedi parhau i gysylltu â chyrff eraill (a darparu cyngor iddynt), sy'n ymwneud â Diogelu'r Cyhoedd a gwaith Amddiffyn, yn enwedig NOMS, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) ac Ofsted. Ymysg pethau eraill, rydym yn gweithio'n agos gydag Ofsted i ddatblygu arolygon ar y cyd o Ddiogelu Plant yn Lloegr, gan ddechrau yn 2013, dan eu harweiniad hwy.

**1.22**
Yn ogystal, rydym wedi gweithio gydag Asiantaeth NOMS a'r YJB i geisio datblygu ffyrdd o wella arferion drwy drefn systematig o hunanasesu wedi ei meincnodi'n briodol (gan ddefnyddio dull arolygu Arolygiaeth Prawf EM), law yn llaw ag arolygon annibynnol. Rydym yn ystyried bod achos da dros drefnau o'r fath, yn enwedig o safbwynt Diogelu'r Cyhoedd. Rydym wedi gweithio'n uniongyrchol hefyd gydag Ymddiriedolaethau a YOTau i helpu i wella arferion ar Ddiogelu'r Cyhoedd a gwaith arall, gan gynnal nifer o ddigwyddiadau gwella arferion.

**1.23**
Fel yn y blynyddoedd blaenorol, fe wnaethom gytuno â NOMS y byddai rhai o'n canlyniadau allweddol o arolygon rheoli troseddwyr yn 2011-12 yn cael eu hymgorffori i'r System Graddio Ymddiriedolaethau Prawf (PTRS) – y prif fecanwaith perfformiad i Ymddiriedolaethau Prawf a defnyddiwyd gan NOMS yn ystod y flwyddyn honno – er mwyn llunio darlun cynhwysfawr o berfformiad ledled yr Ymddiriedolaethau Prawf. Yn ogystal, rydym wedi cyfrannu at rywfaint o drafodaeth gyda NOMS ynghylch ei gynlluniau i newid a rhesymoli cynnwys PTRS ar gyfer y dyfodol.

**1.24**
Rydym wedi parhau i gymryd rhan yng Ngrŵp Arolygu ac Arolygu NOMS, dan gadeiryddiaeth Uned Arolygu a Sicrwydd Corfforaethol NOMS, sy'n cynnwys sefydliadau eraill sy'n cynnal gwaith arolygu carchardai neu Ymddiriedolaethau Prawf, gan gynnwys y Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Cenedlaethol. Mae cysylltiadau o'r fath o gymorth i rannu gwybodaeth, ac ymgymryd â chynllunio ar y cyd er mwyn osgoi dyblygu gwaith, ynghyd â helpu i leihau effaith gweithgarwch arolygu ar Ymddiriedolaethau Prawf.

**1.25**
Fel rhan o'n gwaith yn darparu cyngor, rydym wedi siarad mewn nifer o gynadleddau ar faterion yn ymwneud â throseddau ieuenctid. Siaradodd Julie Fox yn y digwyddiad "Inside Government" dan y teitl *Children's Services: Inspection and Assessment Forum* ar 26 Ionawr 2012, a siaradodd Liz Calderbank yng nghynhadledd "Inside Government" dan y teitl *Youth Offending: Early Intervention, Effective Rehabilitation* ar 23 Chwefror, ac yng nghynhadledd Capita, "Future of Youth Justice National Convention" ar 28 Mawrth.

**1.26**

Rhan arall o'n gwaith yn darparu cyngor oedd cyflwyno papur, ym mis Hydref 2011, i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ar ddyfodol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Thimau Troseddau Ieuenctid. Gwelir hwn ar ein gwefan.

**1.27**
Yn ystod 2011-12, fe wnaethom barhau â'n cyfraniad at weithgarwch rhyngwladol i hyrwyddo gwaith prawf effeithiol. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, fe wnaeth sawl aelod o Arolygiaeth Prawf EM ymgymryd â darnau o waith mewn gwledydd eraill i gynorthwyo â datblygu eu gwasanaethau prawf. Mae Alan MacDonald ar secondiad fel cynghorydd gefeillio preswyl sy'n arwain prosiect a gyllidir gan yr Undeb Ewropeaidd i ddatblygu'r gwasanaeth prawf yn Albania, gyda chefnogaeth o bryd i'w gilydd gan aelodau eraill o staff o'r Arolygiaeth. Fe aeth Sally Lester ar bum ymweliad ag Albania, ac mae hi wedi gweithio gyda chydweithwyr yn Albania i ddatblygu system i asesu oedolion sydd wedi troseddu. Mae hyn wedi golygu hyfforddi staff ar asesu, datblygu offeryn asesu a phecyn hyfforddi, a hyfforddi staff yn Albania fel hyfforddwyr. Bu Mark Boother ar ymweliad ag Albania, ac ymgymerodd ag ysgoloriaeth Fulbright ym Mhrifysgol Minnesota. Bu Liz Calderbank ar ddau ymweliad â Jamaica fel rhan o brosiect i gynorthwyo Llywodraeth Jamaica i adolygu a datblygu gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu.

**1.28**
Fe wnaethom hefyd gynnal ein cysylltiadau â'r Gynhadledd Brawf Ewropeaidd (CEP), a pharhau i'w chefnogi.

### Atebolrwydd a thryloywder

**1.29**
Mae Arolygiaeth Prawf EM yn cydnabod yn llawn ac yn cefnogi'r angen i bob sefydliad sector cyhoeddus fod yn atebol am eu trafodion ariannol, yn enwedig o ran talu treuliau. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn cwrdd â gofynion y MoJ o ran tryloywder "cyrff hyd braich". Yn ychwanegol, cyhoeddir treuliau'r Prif Weithredwr ar ein gwefan.

### Datganiad o Ddiben a Chod Ymddygiad

**1.30**
Rydym yn ystyried ei bod yn bwysig cael Datganiad Diben a Chod Ymarfer eglur, sydd hefyd ar gael i'r cyhoedd. Mae'r rhain yn Atodiad A, a hefyd ar ein gwefan.

### *Trefn gwyno*

**1.31**
Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau bod ein prosesau arolygu yn cael eu cynnal gydag unplygrwydd mewn ffordd broffesiynol, deg a chwrtais, yn unol â'n Cod Ymarfer. Er hynny, mae ein Trefn Gwyno (sydd hefyd ar gael ar y wefan) yn cydnabod bod achosion o hyd lle gallai sefydliad neu unigolyn sy'n rhan o arolwg ddymuno nodi cwyn. Ar nifer o adegau yn ystod 2011-12, nodwyd pryderon a chodwyd cwestiynau ynghylch methodoleg a geiriad adroddiadau gan sefydliadau sy'n rhan o broses arolygu'r CCI. Fe wnaeth Arolygiaeth Prawf EM drafod y materion yn fanwl gyda'r rhai a dynnodd sylw atynt, gan ddarparu esboniadau o'n dull o arolygu.

**Strategaeth Sicrhau Ansawdd**
**1.32**
Fel Arolygiaeth annibynnol, mae angen i ni gynnig sicrwydd bod y gwaith rydym yn ei wneud yn cyrraedd y safon uchaf, ein bod yn craffu'n deg ar y gwaith rydym yn ei arolygu, a'n bod yn penderfynu a llunio casgliadau drwy brosesau cyson a thryloyw. Mae ein Strategaeth Sicrhau Ansawdd gynhwysfawr yn rhoi'r strwythur i ni graffu ar ein trefniadau a'n prosesau, gan geisio sicrhau bod ein penderfyniadau yn gyson ac yn ddibynadwy, ledled ein rhaglenni arolygu, yn ogystal â rhwng ein rhaglenni lle bo hynny'n briodol.

**1.33**
Mae ein Strategaeth ar gyfer 2012-15 yn cynnwys deg elfen, sy'n rhoi sylw i'r prif agweddau ar ein gwaith:

- recriwtio a datblygu'r rhai sy'n arolygu ar ran Arolygiaeth Prawf EM
- amrywiaeth
- dewis samplau o achosion
- adborth defnyddwyr y gwasanaeth yn sgil arolygiadau
- asesu achosion
- cyfweliadau a chyfarfodydd arolygu
- dadansoddi data
- ysgrifennu adroddiadau
- golygu adroddiadau
- llunio adroddiadau.

Mae'r rhain yn cael eu cymhwyso i bob un o'n prif raglenni arolygu, ac yn yr un modd, fe fyddant yn gymwys i'n rhaglenni newydd sy'n dechrau yn 2012-13. Fe wnawn ni barhau â'r gwaith hwn i sicrhau'r safon uchaf o'n prosesau arolygu.

**Amrywiaeth**
**1.34**
Rydym yn ceisio integreiddio egwyddorion gorau amrywiaeth a chydraddoldeb i'n harferion arolygu, yn ogystal â'r modd rydym yn rheoli ein staff ein hunain. Mae ein hamcanion ar roi sylw i faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb wedi eu hamlinellu yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2011-2014. Mae hwn a dogfennau allweddol eraill ar ein gwefan.

**1.35**
Mae'n bwysig iawn yn ein barn ni ein bod yn craffu ar faterion yn ymwneud ag amrywiaeth yn ein prif raglenni arolygu. Rydym wedi gosod meini prawf allweddol ym mhob un o'n prif raglenni i nodi a yw unigolion sy'n troseddu yn cael eu trin yn gymesur, heb wahaniaethu ar sail eu nodweddion amrywiol, ac yn yr un modd, mae'r meini prawf hyn yn cael eu cynnwys yn y rhaglenni newydd. I'r perwyl hwn, rydym yn dadansoddi ac yn cyhoeddi canfyddiadau arolygiadau yn ôl nodweddion amrywiaeth, fel bod modd nodi unrhyw anghymesuredd yn ansawdd y gwaith gyda grwpiau gwahanol o unigolion (yn ôl hil, rhywedd, grŵp oedran, ac ati). Cafodd canfyddiadau cyfanredol rhaglenni CCI ac OMI 2 hyd yn hyn, wedi eu dadansoddi yn ôl nodweddion amrywiaeth, eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2011, ac

rydym yn bwriadu cyhoeddi rhagor o ddadansoddiadau o CCI a OMI 2 yn ystod 2012.

**1.36**
Rydym hefyd yn ceisio integreiddio egwyddorion gorau amrywiaeth yn Arolygiaeth Prawf EM, o ran sut rydym yn trefnu ein hunain ac yn trin eraill, ac i fonitro sut rydym yn gwneud hyn. Yn y cyswllt hwn, rydym yn monitro nodweddion amrywiaeth staff Arolygiaeth Prawf EM. Mae’r wybodaeth hon yn dangos y canlynol am y cyfan* o grŵp staff Arolygiaeth Prawf EM, ar ddiwedd 2011:

- Roedd 47% yn ferched, a 53% yn ddynion
- Roedd 3% o grŵp ethnig lleiafrifol, a 97% yn wyn
- Roedd 2% o’r farn bod ganddynt anabledd yn unol â diffiniadau deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd, ond ni wnaeth 98% nodi hynny
- Roedd 9% yn lesbiaid, hoywon neu’n ddeurywiol, a 91% yn heterorywiol
- Roedd 20% dan 35 oed, 17% rhwng 35 a 44 oed, 27% rhwng 45 a 54 oed, a 36% dros 55 oed.

* Nid yw’r cyfraneddau hyn yn cynnwys rhai a ddewisodd beidio ateb pan holwyd am nodwedd benodol.

**1.37**
Rydym yn parhau i weithio yn unol â’n Cynllun Iaith Gymraeg. Yn ystod 2011-12 fe wnaethom gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig, gyda Bwrdd yr Iaith yn cytuno â’r cynnwys. I’r perwyl hwn, rydym yn parhau i gynnal tudalen Gymraeg ar ein gwefan ar faterion yn ymwneud â’r Gymraeg, ac i sicrhau bod ein panel o Arolygwyr Cysylltiol yn cynnwys tri siaradwr Cymraeg.

**1.38**
Rydym hefyd yn cynnal asesiadau effaith amrywiaeth ar gyfer y prif brosesau yn ein rhaglenni arolygiadau rheolaidd.

### Gwiriadau’r Swyddfa Cofnodion Troseddol

**1.39**
Mae’n bosibl iawn y bydd ein staff sy’n arolygu gwaith troseddau ieuenctid mewn cysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, neu o leiaf gyda chofnodion sy’n cynnwys manylion personol amdanynt. Am y rheswm hwn, mae’n bwysig bod ein holl staff sy’n rhan o’r gwaith hwn - staff gwasanaethau ategol yn ogystal â staff arolygu - yn cael gwiriad manylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB). Rydym hefyd o’r farn y dylai’r gwiriad fod yn gymwys i staff sy’n cysylltu ag oedolion agored i niwed yn ogystal â phlant a phobl ifanc. Rydym yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyn, gan lynu wrth God Ymarfer y CRB wrth wneud hyn. Mae ein dull yn unol â’r disgwyliad sydd gennym wrth arolygu gwaith YOT.

### Cyfleusterau TG

**1.40**
Mae Arolygiaeth Prawf EM yn defnyddio system TG y MoJ. Nid yw hyn yn cwrdd â’n gofynion yn llawn wrth gynnal gwaith maes arolygu, ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi trafod gyda’r MoJ ffyrdd y gellir gwella’r system.

**Staffio**

**1.41**

Yn ystod 2011-12, ymunodd pum aelod o staff â ni, a gadawodd wyth eu swyddi. Yn bennaf, roedd y newidiadau hyn yn cynnwys staff Asesu Arferion a secondiwyd i Arolygiaeth Prawf EM am gyfnod penodol. Fe ymddeolodd tri aelod o staff, hefyd.

**1.42**

Rydym yn parhau i gynnal a datblygu ein panel o Arolygwyr Cysylltiol. Mae'r bobl hyn, a gafodd eu recriwtio i'r un safonau llym â'n staff arolygu cyflogedig, yn gweithio i Arolygiaeth Prawf EM fesul sesiwn, ac yn cael tâl am hynny, ochr yn ochr â'n staff cyflogedig. Yn ystod 2012-13, fe wnaeth dau a oedd wedi bod yn rhan o'n grŵp staff yn flaenorol ymuno â'r panel.

**1.43**

Mae Arolygiaeth Prawf EM eisoes yn llawn amrywiaeth o ran sgiliau a chefndiroedd, ac rydym yn ymrwymedig i gynnal ac ymestyn hyn. Mae hyn wedi cael hwb wrth i Ymddiriedolaethau Prawf, YOTau a sefydliadau eraill secondio eu staff i ni, ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu parodrwydd parhaus i wneud hynny.

**1.44**

Gwelir ein grŵp staff, 31 Mawrth 2012 – gan gynnwys y panel o Arolygwyr y telir ffi iddynt – yn Atodiad C.

**Cynllunio Gwaith Arolygu a Defnyddio Adnoddau**

**1.45**

Er mwyn monitro'n glir sut mae ein hadnoddau yn cael eu defnyddio i gyflawni ein cynlluniau, rydym yn creu 'cyllideb' o 'oriau arolygu' y gellir eu defnyddio, ac yn monitro sut mae'r oriau hyn yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. Mae Cynllun Prawf Arolygiaeth Prawf EM ar gyfer 2011-12 wedi gosod cynlluniau penodol ar gyfer pob un o'n prif fathau o arolygu, gan gynnwys nifer yr 'oriau arolygu' i'w dyrannu i bob math. Fel y nodwyd yn gynharach, roedd y mwyafrif helaeth o'n gwaith arolygu yn 2011-12 – fel yn y tair blynedd flaenorol – yn parhau i fod yn waith arolygu ar y cyd o ryw fath, gan weithio ag Arolygiaethau partner mewn cyfuniadau gwahanol.

**1.46**

Wrth adolygu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, rydym yn falch o nodi ein bod ni wedi llwyddo i gynnal y gwaith roeddem wedi bwriadu ei wneud yn 2011-12, gan gynnwys cyfrannu'n llawn at Raglen Arolygu ar y cyd Arolygiaethau'r System Cyfiawnder Troseddol.

# 2 AROLYGU GWAITH TROSEDDAU OEDOLION: RHAGLEN AROLYGIADAU RHEOLI TROSEDDWYR

**Trosolwg**

**2.1**

Mae'r rhaglen Arolygiadau Rheoli Troseddwyr (OMI 2) dros gyfnod o dair blynedd, a ddechreuodd ym mis Medi 2009, wedi cael ei chynnal yn unol â'r bwriad. Yn ychwanegol, rydym wedi parhau i weithio fel rhan o dimau arolygu Arolygiaeth Carchardai EM ar yr holl arolygiadau o sefydliadau a gafodd eu hysbysu ganddynt. Eleni, rydym wedi ymestyn cwmpas ein rhaglen Arolygiadau Rheoli Troseddwyr mewn Carchardai (POMI), sydd yn awr yn cynnwys cyfweliadau â goruchwylwyr troseddwyr am eu gwaith gyda charcharorion unigol.

**Canfyddiadau OMI 2**

***Cyflawni OMI 2***

**2.2**

Yn ystod llynedd, fe wnaethom gynnal arolygon mewn 11 Ymddiriedolaeth dros 17 wythnos, gan gynnwys rhanbarthau Gogledd Orllewin Lloegr, Llundain, Gogledd Ddwyrain Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

**2.3**

Yn yr un modd â'r rhaglen arolygu flaenorol, mae pwyslais ein methodoleg wedi parhau i fod ar asesu achosion unigol. Yn y rhan fwyaf o Ymddiriedolaethau, rydym wedi arolygu rhwng 100 a 220 o achosion, yn ddibynnol ar faint yr Ymddiriedolaeth. Yn Llundain, roedd ein sampl yn cynnwys 440 achos. Mae'r gwaith gyda phob unigolyn yn cael ei arolygu'n fanwl drwy gyfweliad gyda'r rheolwr troseddwyr, ac arolygu'r cofnodion achos ategol. Rydym yn penderfynu beth yw ansawdd yr ymarfer dan dri phennawd allweddol: asesu a chynllunio dedfrydau; gweithredu ymyriadau; cyflawni a chynnal canlyniadau wedi'u cynllunio.

**2.4**

Cyn Ebrill 2011, roedd ein hadroddiadau hefyd yn cynnwys adran ar Arweinyddiaeth a Rheolaeth Strategol, a seiliwyd ar dystiolaeth ddogfennol a chyfweliadau gyda rheolwyr, staff a phartneriaid o asiantaethau allweddol eraill. O ran rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr, nid ydym wedi arolygu'n rheolaidd yn unol â'r meini prawf sy'n berthnasol i arwain a rheoli. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn yr amser y mae Ymddiriedolaethau yn ei dreulio yn paratoi at arolwg, ac mae wedi ein galluogi ni i ganolbwyntio'n amlach ar ansawdd yr ymarfer. Er hynny, rydym wedi parhau i roi sylwadau ar faterion trefniadaethol lle mae'r rhain yn ymddangos eu bod yn cefnogi neu'n egluro ein canfyddiadau ynghylch ymarfer. Mae ein tystiolaeth ar gyfer y sylwadau hyn yn dod o'n cyfweliadau trylwyr gyda rheolwyr troseddwyr ynghylch achosion unigol, a sut mae'r sefydliad yn cefnogi ac yn datblygu eu harferion.

**2.5**

Ar yr un pryd, fe wnaethom adolygu'r adran ynghylch ein hofferyn arolygu, sy'n arolygu cyflawni canlyniadau. Credwn fod y newidiadau rydym wedi eu gwneud wedi arwain at fethodoleg gadarnach, a bod y canlyniadau yn adlewyrchu'r

arferion rydym wedi ei arolygu yn decach. Rydym yn canolbwyntio ar benderfynu a gyflawnwyd tri phrif ddiben goruchwylio unigolion a ddedfrydwyd, sef:

- sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion eu dedfryd
- lleihau'r tebygrwydd ohonynt yn aildroseddu
- lleihau'r risg y gallent niweidio eraill

Rydym hefyd wedi cael safbwyntiau unigolion a ddedfrydwyd, dioddefwyr a dedfrydwyr drwy holiaduron, ond nid ydym wedi parhau â'n harfer o gyfweld y grwpiau hyn.

***Canfyddiadau OMI 2***

**2.6**

Ym mhob adroddiad arolwg OMI 2, rydym yn cyflwyno "sgoriau pennawd" ar gyfer y prif elfennau canlynol o waith rheoli troseddwyr:

- gwaith i leihau'r risg o unigolion yn peri niwed i eraill. Camau i ddiogelu'r cyhoedd – y diben 'Cadw trefn'
- gwaith i wneud unigolion yn llai tebygol o aildroseddu – y dibenion 'Help' a 'Newid'
- gwaith cydymffurfio a gorfodi: gwaith wedi ei anelu at sicrhau bod yr unigolyn yn treulio ei ddedfryd / ei dedfryd – y diben 'Cosbi'

Ar gyfer pob math o waith, mae'r sgoriau'n dynodi canran y gwaith a arolygwyd, y byddwn ni yn Arolygiaeth Prawf EM o'r farn eu bod wedi cyrraedd lefel ddigon uchel o ran ansawdd.

**2.7**

Wrth asesu'r prif elfennau hyn o'r gwaith fel y nodwyd uchod, mae achosion yn cael eu hasesu ar sail meini prawf a ddiffiniwyd ac a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Prawf EM, sydd wedi eu strwythuro i'r tair prif adran ganlynol:

- asesu a chynllunio dedfrydau
- gweithredu ymyriadau
- cyflawni a chynnal canlyniadau a gynlluniwyd

Rydym hefyd yn cynhyrchu sgoriau ar gyfer pob un o'r 'meini prawf cyffredinol' hyn.

**2.8**


Erbyn hyn, rydym wedi cwblhau arolygiadau Ymddiriedolaethau yn wyth o ranbarthau Lloegr. Mae canfyddiadau holl arolygiadau'r rhaglen OMI 2 hyd yn hyn yn dangos y sgoriau "pennawd" cyfanredol canlynol:

- roedd cadw'r risg o niweidio eraill mor isel â phosibl yn 74%
- roedd gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu yn 73%
- roedd gwaith ar Gydymffurfio a Gorfodi yn 79%

Roedd ffigyrau cyfatebol arolygon OMI 2 yn 2011-12 fel a ganlyn:

- roedd cadw'r risg o niweidio eraill mor isel â phosibl yn 77%
- roedd gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu yn 76%


- roedd gwaith ar Gydymffurfio a Gorfodi yn 79%




Mae sgoriau “pennawd” pob arolwg unigol yn 2011-12 i’w gweld yn y tabl ar ddiwedd y bennod hon.

**2.9**

Mae canfyddiadau arolygiadau 2011-12 hefyd yn dangos sgoriau cyfanredol hyd yn hyn ar asesu a chynllunio dedfrydau, gweithredu ymyriadau, a chyflawni a chynnal canlyniadau wedi’u cynllunio, o 79%, 78% a 70% yn eu trefn. Mae’r ffigyrau ar gyfer y flwyddyn a fu wedi dangos gwelliant ar y flwyddyn flaenorol, yn enwedig o ran canlyniadau.




**2.10**
Roedd rhai o ganfyddiadau allweddol eraill arolygon 2011-12 yn cynnwys y canlynol:

- Cwblhawyd gwaith manwl ar sgrinio risg o niwed OASys yn 79% o'r achosion. Lle'r oedd angen dadansoddiad llawn o'r risg o niwed, roedd y rhain o ansawdd digonol yn 57% o'r achosion. Pan nad oedden nhw'n ddigon da, roedd hyn yn bod gan nad oedden nhw'n tynnu'n ddigonol ar yr holl ffynonellau gwybodaeth oedd ar gael, neu am eu bod nhw wedi methu ystyried ymddygiad blaenorol perthnasol.
- Roedd cynlluniau rheoli risg yn ddigon trylwyr yn hanner yr achosion perthnasol a arolygwyd gennym, a defnyddiwyd MAPPA yn effeithiol yn 84% o'r achosion.
- Nid oedd rheolwyr wedi chwarae digon o ran yn y gwaith asesu a chynllunio i reoli'r risg o niwed yn 41% o'r achosion perthnasol, ac yn 54% o'r achosion, roedd materion pwysig ynghylch Diogelu Plant.
- Cyflawnwyd ymyriadau yn unol â gofynion y ddedfryd yn 82% o'r achosion ac yn unol â chynllun y ddedfryd yn 72% o'r achosion.
- Roedd amlder y cyswllt gydag unigolion a oedd wedi troseddu yn cwrdd neu'n rhagori ar y safon genedlaethol yn 92% o'r achosion, ac mewn cyfran debyg, roedd yn ddigon i gyflawni dedfryd y llys a chefnogi gwaith i hyrwyddo gostwng aildroseddu.
- Yn achos y rhai yn y ddalfa, trefnodd rheolwyr troseddwyr i gyfrannu at fyrddau cynllunio dedfrydau yn 71% o'r achosion. Cafwyd cyfathrebu da rhwng rheolwyr troseddwyr a goruchwylwyr troseddwyr yn 60% o'r achosion.
- Pan alwyd achosion yn ôl i'r carchar, cafodd 78% esboniadau eglur pam eu bod wedi eu galw'n ôl. Yn 70% o'r achosion, ymdrechwyd i ailgysylltu'r unigolyn â'u cynllun dedfryd.

- Rhagwelwyd a nodwyd newidiadau posibl neu newidiadau o ddifrif yn y risg o niweidio eraill yn gyflym yn 72% o'r achosion, a gweithredwyd ar tua 66%.
- Lle'r oedd trwyddedau a gorchmynion yn cynnwys amodau caeth, cafodd y rhain eu monitro'n llawn mewn 87% a 80% o'r achosion yn eu trefn. Defnyddiwyd preswylfeydd cymeradwy'n effeithiol i reoli'r risg o niwed ym mhob achos perthnasol, bron â bod.
- Cafodd y mwyafrif o ddioddefwyr yr achosion yn ein sampl y cyfle i gynnig safbwyntiau ar amodau arfaethedig trwyddedau, a chawsant wybod am amodau perthnasol eu rhyddhau. Pan gafwyd digwyddiadau perthnasol yn ystod dedfryd unigolyn, cafodd 83% o ddioddefwyr wybod beth oedd yn digwydd.
- Yn 83% o'r achosion, gweithiodd rheolwyr troseddwyr i sicrhau bod yr unigolyn a oedd wedi troseddu yn cadw ac yn datblygu ei gysylltiadau / ei chysylltiadau â'r gymuned yn ystod y ddedfryd. Yn 76% o'r achosion, cafodd unigolion gymorth i oresgyn rhwystrau ymarferol rhag integreiddiad cymunedol a hyrwyddo a chyflawni sgiliau bywyd allweddol.
- Yn 85% o'r achosion, cafwyd tystiolaeth bod y rheolwr troseddwyr wedi ymrwymo i'w gwaith gyda'r unigolion, ac wedi eu cymell a'u cefnogi drwy gydol eu dedfryd, gan atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol.
- Fe wnaeth trefniadau ar gyfer ymyriadau ystyried unrhyw ffactorau amrywiaeth sy'n effeithio ar yr unigolyn mewn tri chwarter o'r achosion.
- Yn 96% o'r achosion, roedd yr unigolyn naill ai wedi cydymffurfio â'r gorchymyn neu'r drwydded, neu roedd wedi cael ei orfodi'n briodol.
- Yn 74% o'r achosion, cymerwyd pob cam rhesymol i leihau'r risg o niwed gymaint â phosibl.
- Roedd amcanion y cynllun dedfrydu wedi cael eu cyflawni'n llawn neu'n rhannol yn 73% o'r achosion.

**2.11**
Cafodd unigolion dan oruchwyliaeth a oedd yn ymweld â swyddfeydd prawf ychydig cyn yr arolwg wahoddiad i lenwi arolwg ar eu safbwyntiau ynghylch goruchwyliaeth.

- dywedodd y mwyafrif helaeth fod ganddynt berthynas waith dda gyda'u rheolwr troseddwyr.
- dywedodd 86% eu bod wedi teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses pan luniwyd y cynllun dedfryd, ac fe ddywedodd cyfran debyg eu bod nhw wedi trafod eu cynnydd gyda'r rheolwr troseddwyr.
- pan ofynnom pa broblemau oedden nhw wedi cael help i'w datrys yn ystod eu goruchwyliaeth, yr atebion a gododd amlaf oedd llety (25% o'r ymatebion), addysg/hyfforddiant/cyflogaeth (19%), perthnasau (11%), gydag agweddau at droseddu (6%) a defnyddio cyffuriau ac alcohol (5% yr un) yn dilyn hynny.
- roedd gwaith y gwasanaeth prawf wedi peri i 96% feddwl am eu troseddu, a sut y gallent ei osgoi yn y dyfodol.

- roedd 94% wedi dod yn fwy ymwybodol o ddioddefwyr troseddau, a theimlodd 93% y bydden nhw'n llai tebygol o droseddu yn y dyfodol.

**2.12**
Roedd y mwyafrif a roddodd sylwadau yn gadarnhaol iawn ynghylch eu profiad o oruchwyliaeth:

> *"Rwy'n ymwybodol y gallwn i ddewis ffordd well o fyw. Gallaf wneud pethau heb ddefnyddio cyffuriau. Mae'r cysylltiad rhwng asiantaethau wedi rhoi hwb gadarnhaol i mi geisio cyrraedd y nod honno".*
>
> *"Fe wnaeth gwisgo tag fy nghadw i draw o'r dref, ac allan o drwbl. Fe wnes i sylweddoli nad oes angen i mi yfed cymaint i fwynhau fy hun; fe wnes i ystyried ffyrdd o yfed llai pan fyddaf allan gyda ffrindiau".*
>
> *"Dealltwriaeth well ohonof fy hun a'r ffordd rydw i'n ymddwyn tuag at bobl eraill! Camu'n ôl ac edrych ar bethau yn gyffredinol cyn gweithredu".*
>
> *"Mae 'na welliant aruthrol wedi bod, a mewnwelediad ar dueddiadau trais domestig, a'r ffordd o ddelio â'r materion hyn a'r ffordd o ddelio â'm tymer, a dealltwriaeth well o sut i fod yn fwy parchus tuag at fy mhartner".*
>
> *"Rydw i'n sylweddoli yn awr fod llawer o bethau drwg a wnes i yn y gorffennol yn ddrwg, ac mi wna i wella fy hun".*

**2.13**
Fe wnaethom anfon holiaduron at ddioddefwyr achosion a gafodd eu goruchwylio gan yr Ymddiriedolaethau Prawf a arolygwyd gennym, ac yr oedd eu trosedd yn gofyn am gyswllt â'r dioddefwr dan y system brawf. Roedd y mwyafrif llethol wedi cael cynnig cyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r system brawf, ac roedden nhw wedi cael gwybodaeth am ba hyd y byddai'r unigolyn dan sylw yn y carchar, cael gwybod y diweddaraf am unrhyw bwyntiau allweddol yn y ddedfryd, a chael cyfle i siarad am eu pryderon ynghylch rhyddhau'r unigolyn.

**2.14**
Yn ogystal, fe wnaethom arolygu dedfrydwyr, ac roedd y mwyafrif ohonynt yn fodlon gyda safon yr adroddiadau cyn-dedfrydu, gan deimlo bod y trefniadau cyswllt rhwng dedfrydwyr a'r Ymddiriedolaeth Brawf yn foddhaol. Roedd gan y rhan fwyaf feddwl mawr o sgiliau'r staff prawf sy'n gweithio yn y llys, er bod 20% yn bryderus nad oedd y lefelau staffio yn y llys bob amser yn ddigonol.

**Aseswyr Lleol**
**2.15**
Ym mhob Ymddiriedolaeth a arolygwyd, rydym wedi hyfforddi grŵp o Aseswyr Lleol – staff prawf sy'n gweithio gyda ni drwy gydol cyfnod yr arolwg yn eu hardal. Roedd adborth ynghylch yr hyfforddiant yn hynod gadarnhaol.

**2.16**
Roedd rhai o sylwadau nodweddiadol Aseswyr Lleol yn cynnwys:

> *"Hyfforddiant rhagorol yn gyffredinol, ac roedd yn werth chweil o'm rhan i fy mod i'n deall beth yw'r meincnod, a gallaf fynd ag ef yn ôl at y tîm i ddylanwadu ar arferion".*
>
> *"Roedd yr holl fodiwlau a ddarparwyd yn ddefnyddiol ac addysgiadol. Fe wnaeth danlinellu pa mor bwysig yw casglu gwybodaeth berthnasol a*

*chymhwyso'r offer asesu a'r Canllawiau Asesu Achosion sy'n gysylltiedig â hyn".*

*"Hyfforddiant wedi ei gyflwyno'n dda, cyflymder da ac roedd brwdfrydedd yr arolygwyr yn heintus – rydw i'n barod i fwrw iddi yn awr".*

**2.17**
Mae adborth gan yr Aseswyr Lleol yn ddieithriad yn awgrymu fod y profiad o weithio ar yr arolygiadau wedi bod yn werth chweil, addysgiadol ac ysgogol. Mae sylwadau'r Aseswyr Lleol ynghylch yr achosion maent yn eu harolygu fel arfer yn adlewyrchu canfyddiadau tîm Arolygiaeth Prawf EM. Rydym wedi annog Ymddiriedolaethau i ddefnyddio eu sgiliau mewn gweithgareddau gwella prosesau ar ôl arolygiadau.

**Gweithio gydag Arolygiaethau eraill**
**2.18**
Mae Ofsted wedi parhau i chwarae rhan sylweddol yn yr arolygiadau rheoli troseddwyr. Y mae wedi bod yn rhan uniongyrchol o bob maes arolygu, drwy arsylwi ar arferion Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg (ETE) a chyfweliadau gyda'r unigolion sydd wedi troseddu, y staff a rheolwyr. Rydym wedi ymgorffori canfyddiadau Ofsted ar addysg a sgiliau troseddwyr yn ein hadroddiadau.

***OMI Carchardai***
**2.19**
Eleni, rydym wedi ymuno ag Arolygiaeth Carchardai EM mewn 21 o'r arolygon a gyhoeddwyd ganddynt, ac rydym wedi asesu ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud dan Gamau II a III Model Rheoli Troseddwyr NOMS. Rydym wedi cynyddu faint o adnoddau mae'r arolygiadau hyn yn eu cael, sydd wedi ein galluogi i ymestyn ein methodoleg i gynnwys cyfweliadau gydag arolygwyr troseddwyr ynghylch eu gwaith gyda charcharorion unigol, ynghyd ag archwilio cofnodion ategol y carchar.


**2.20**
Mae ein canfyddiadau am ansawdd rheoli troseddwyr yn cyfrannu at yr adroddiad arolygu sy'n cael ei lunio gan Arolygiaeth Carchardai EM. Yn ychwanegol, lle'r ydym wedi arolygu nifer o achosion o un Ymddiriedolaeth Brawf, rydym wedi anfon ein canfyddiadau ar wahân at yr Ymddiriedolaeth. Rydym hefyd wedi anfon nodiadau briffio i'r carchar ynghylch ein canfyddiadau.

**2.21**
Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad cyfanredol ar ein canfyddiadau yn sgil 13 Arolwg o Reoli Troseddwyr mewn Carchardai yn gynnar yn 2012-13.

***Sut dderbyniad gafodd OMI 2 gan y rhai y cafodd eu gwaith ei arolygu***
**2.22**
Yn rhaglen OMI 2, rydym wedi gwahodd adborth gan reolwyr troseddwyr a gyfwelwyd yn yr arolwg. Dyma'r adborth o'r arolygiadau hynny lle'r oedd gwybodaeth ar gael pan baratowyd yr adroddiad hwn, ac mae'n gadarnhaol:

- Llenwyd 749 o holiaduron gan reolwyr troseddwyr a fu'n rhan o'r arolygiadau.

- Roedd y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn teimlo bod trafodaethau gydag aseswyr Arolygiaeth Prawf EM *yn bendant* wedi eu cynnal mewn modd proffesiynol, diduedd a chwrtais.
- Roedd yr arolwg *yn bendant* wedi rhoi digon o sylw i gydraddoldeb hil a materion helaethach ynghylch amrywiaeth yn ôl 89% o'r rhai a ymatebodd, roedd 10% arall yn nodi bod sylw *rhesymol* wedi cael ei roi i'r materion hyn.




**2.23**
Rydym hefyd wedi ceisio cael rhywfaint o dystiolaeth ynghylch effaith arolygu ar arferion. Mewn 84% o'r ymatebion, nododd y rheolwyr troseddwyr bod yr aseswr *yn bendant* wedi rhoi adborth iddynt ar arfer da; nododd 14% yn rhagor eu bod nhw wedi cael *rhywfaint* o adborth ar arfer da.

**2.24**
Fe wnaethom holi ynghylch y gwaith roeddent wedi cael canmoliaeth yn ei gylch yn ystod yr arolwg. Roedd yr atebion yn cynnwys:

> *"Cafodd amcanion y Cynllun Dedfrydu eu diweddaru i ystyried y newidiadau i amgylchiadau".*
>
> *"Defnyddiwyd cofnodion cyswllt manwl i nodi ymyriadau".*
>
> *"Roeddwn wedi meddwl am ffyrdd gwahanol o geisio ymgysylltu â'r troseddwr, ac fe wnes i ddyfalbarhau gyda'r achos anodd a chymhleth hwn".*

Mewn 68% o ymatebion, dywedodd y rheolwyr troseddwyr fod yr aseswr *yn bendant* wedi rhoi syniadau iddyn nhw am sut i wella eu harferion; dywedodd 30% yn rhagor eu bod nhw wedi cael *rhai* syniadau ynghylch gwelliannau.

**2.25**
Fe wnaethom ofyn i'r rheolwyr troseddwyr ddweud wrthym beth fyddent yn ei wneud yn wahanol yn dilyn yr arolwg. Roedd eu sylwadau yn cynnwys:

> *"Fe wnaeth RMP nodi sbardunwyr a chymhellwyr yn glir, a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadolygu'n weithredol wrth adolygu'r cynllun cyfan".*
>
> *"Mi wna i roi rhagor o sylw i ymgorffori gwybodaeth o ymyriadau yn fy asesiad - er enghraifft, sgorio seicometrig a gwybodaeth o raglenni fel NSOG i fesur meddwl ac agweddau".*
>
> *"Torri amcanion yn ddarnau llai o faint wrth gynllunio dedfrydau er mwyn cynyddu sylw a gwella ymgysylltu".*
>
> *"Fe wnaf i ddefnyddio dulliau eraill o gyflawni gwaith sy'n canolbwyntio ar droseddau".*

**2.26**
Fe wnaethom ofyn i reolwyr troseddwyr a oedd unrhyw ffactorau a fyddai'n eu rhwystro rhag newid eu hymarfer, neu barhau ag arferion gorau. Yn gyffredinol, nododd 34% rwystrau o'r fath. Nid yw'n syndod bod nifer wedi cyfeirio at faich gwaith trwm, nifer o bethau gwahanol yn hawlio eu sylw a phrinder staff. Fe wnaeth rhai nodi effaith newidiadau trefniadaethol a phroblemau TG.

### Gwaith gyda NOMS ac Ymddiriedolaethau Prawf

**2.27**
Rydym wedi parhau i gymryd rhan yn y panel Sicrwydd Ansawdd ar gyfer adolygiadau o Droseddau Pellach Difrifol. Yn ychwanegol, rydym wedi cynnig hyfforddiant i aelodau'r panel hwn, sy'n cynrychioli NOMS ac uwch reolwyr o Ymddiriedolaethau Prawf. Yn ogystal, rydym wedi cyfrannu at ddatblygu fframwaith Sicrwydd Ansawdd NOMS ar gyfer Ymddiriedolaethau.

**2.28**
Mae sawl Ymddiriedolaeth Brawf wedi dod atom am gymorth i ddarparu 'gweithdai meincnodi', fel arfer ar gyfer uwch ymarferwyr neu reolwyr. Er nad ydym wedi gallu rhoi adnoddau tuag at bob cais o'r fath, rydym wedi ymgymryd â thri gweithdy ar ran Ymddiriedolaethau Prawf. Mae'r rhain wedi eu seilio ar asesiadau manwl o ffeil achos a thrafodaeth ar y beirniadaethau a wnaed ynghylch ansawdd yr ymarfer. Mae Canllaw Asesu Achosion (CAG) Arolygiaeth Prawf EM yn cael ei ddefnyddio i benderfynu a yw agweddau ar arferion yn cyrraedd safon ddigonol. Mae'r CAG ar gael ar ein gwefan, ynghyd â fersiwn Word o'n hofferyn arolygu. Mae rhai Ymddiriedolaethau wedi cael Microsoft InfoPath, sef y rhaglen rydym yn ei defnyddio i gofnodi a dadansoddi ein hasesiadau achosion. Mae nifer o Ymddiriedolaethau wedi ymgymryd ag astudiaethau OMI lleol gan ddefnyddio'r canllaw a'r offeryn dadansoddi sydd ar gael ar ein gwefan. Mae rhagor o gyngor ar gael gan Arolygiaeth Prawf EM.

### Y Flwyddyn Ymlaen

**2.29**
Yn ystod 2012-13 rydym yn bwriadu cynnal arolygon OMI 2 yn y pum Ymddiriedolaeth sy'n weddill, yn Swydd Efrog a Glannau Humber ac yng Nghymru, gan felly gwblhau'r rhaglen OMI 2. Yn Ymddiriedolaeth Fetropolitan Gorllewin Swydd Efrog, bydd yr arolwg yn cael ei gynnal dros gyfnod o bythefnos, ac yng Nghymru cynhelir yr arolwg dros gyfnod o dair wythnos; cynhelir arolygon

eraill dros gyfnod o wythnos. Bydd yr adroddiad OMI 2 terfynol yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2012. Yn ogystal, byddwn yn cyhoeddi rhagor o ddata cyfanredol o OMI 2, gan gynnwys dadansoddiadau yn ôl nodweddion amrywiaeth.

Rydym yn datblygu'r rhaglen arolygu newydd ar waith troseddau oedolion, a fydd yn ystyried unrhyw newidiadau yn y ffordd y mae gwaith prawf yn cael ei gyflawni yn dilyn adolygu gwaith y gwasanaeth prawf. Bydd y rhaglen arolygu newydd yn dechrau yn Ionawr 2013 a bydd digwyddiadau ymgynghori ar y fethodoleg arolygu yn cael ei gynnal yn ystod 2012-13.

**OMI 2: sgoriau "pennawd" arolygon yn 2011-12**

| Ymddiriedolaeth | Gwaith i gadw'r perygl o niweidio eraill mor isel â phosibl | Gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu | Gwaith ar Gydymffurfio a Gorfodi |
|---|---|---|---|
| **Cumbria** | 76% | 73% | 78% |
| **Swydd Caer** | 76% | 76% | 79% |
| **Manceinion Fwyaf** | 77% | 75% | 77% |
| **Glannau Merswy** | 79% | 78% | 82% |
| **Swydd Gaerhirfryn** | 77% | 78% | 78% |
| **Llundain** | 70% | 69% | 75% |
| **Durham Tees Valley** | 83% | 82% | 84% |
| **Northumbria** | 81% | 82% | 86% |
| **Swydd Warwick** | 84% | 81% | 82% |
| **Swydd Stafford a Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 78% | 75% | 78% |
| **Gorllewin Mercia** | 82% | 81% | 83% |

# 3 AROLYGU GWAITH TROSEDDAU IEUENCTID: AROLYGIADAU ACHOSION CRAIDD

## Trosolwg

**3.1**

Dechreuwyd y rhaglen Arolwg Achosion Craidd (CCI) ym mis Ebrill 2009 ac yn ystod y flwyddyn o'r 1 Ebrill 2011 tan 31 Mawrth 2012 cynhaliwyd 53 arolwg yn yr ardaloedd oedd yn weddill yn rhanbarthau'r De-ddwyrain (5) Llundain (30), Dwyrain Lloegr (10) a Dwyrain Canolbarth Lloegr (8). Yn ystod y cyfnod hwn aseswyd cyfanswm o 2,461 o achosion, ac o'r rhain roedd 681 (28%) wedi eu harolygu gan Aseswyr Lleol.

**Nodweddion y sampl gyfan hon:**

- 15% yn enethod a merched ifanc
- 85% yn fechgyn a dynion ifanc
- 34% o'r plant a'r bobl ifanc o darddiad pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
- 21% o'r sampl ag anabledd canfyddadwy
- 21% o'r achosion yn Blant sy'n Derbyn Gofal.

**3.2**

Mae'r rhaglen CCI, sy'n rhan o'r Arolwg ehangach o waith Arolygiaeth Troseddau Ieuenctid (IYO), yn arolygu agweddau allweddol o waith 158 o Dimau Troseddau Ieuenctid (YOT) dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ble mae arolygiaeth yn 'ychwanegu gwerth' yn bennaf at Ddiogelu'r Cyhoedd (risg o niwed i eraill a'r tebygolrwydd o aildroseddu) ac o Amddiffyn. Rydym yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd mewn achosion unigol. Rydym yn asesu'r achosion hyn drwy archwilio'r cofnodion ysgrifenedig a chyfweld rheolwr yr achos, drwy siarad â hwy'n fanwl ynglŷn â sut roedd y gwaith gyda'r plentyn neu'r person ifanc hwn wedi ei wneud.

**3.3**

Ar gyfer pob CCI, rydym yn cynhyrchu sgoriau pennawd ynglŷn â pha mor dda y gwnaethpwyd y gwaith o Ddiogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd.


## Sgoriau pennawd i'r CCIau

**3.4**

Mae'r tabl canlynol yn dangos sgoriau pennawd yr holl CCI yn gyfansymiol yn 2011-12, ac hefyd y CCI isaf a'r uchaf i bob CCI unigol *(mae'r rhifau mewn cromfachau ar gyfer 2010-11).*

| | Cyfanredol 2011-12 | Isaf | Uchaf |
|---|---|---|---|
| **Sgôr Amddiffyn:** *y ganran o waith Amddiffyn roedd Arolygiaeth Prawf EM yn barnu oedd wedi cyrraedd lefel ansawdd digon uchel* | 68% *(71%)* | 44% *(37%)* | 90% *(91%)* |
| **Diogelu'r Cyhoedd – Sgôr risg o niwed:** *canran y gwaith risg o niwed roedd Arolygiaeth Prawf EM yn barnu oedd wedi cyrraedd lefel ansawdd digon uchel* | 62% *(64%)* | 42% *(36%)* | 86% *(81%)* |
| **Diogelu'r Cyhoedd – Sgôr tebygolrwydd aildroseddu:** *canran y tebygolrwydd o waith aildroseddu roedd Arolygiaeth Prawf EM yn barnu oedd wedi cyrraedd lefel ansawdd digon uchel* | 72% *(73%)* | 52% *(43%)* | 88% *(87%)* |

Mae'r canfyddiadau hyn – ac yn arbennig y rhai am y sgôr risg o niwed – yn dangos fod angen gwelliant sylweddol o hyd ar rai YOT.




**3.5**
Dangosir Sgoriau Penawdau pob un o'r arolygiadau unigol ar gyfer 2011-2012 yn y tabl ar ddiwedd y bennod.

**Canfyddiadau manwl**
**3.6**
Yn ogystal â chynhyrchu sgoriau penawdau ar gyfer gwaith Amddiffyn a Diogelu'r Cyhoedd rydym hefyd yn cynhyrchu sgoriau am ansawdd yr asesu a'r cynllunio, ymyriadau a chanlyniadau.  Dyma'r strwythur a ddefnyddiwn wrth asesu achos

unigol. Mae'r data a gynhyrchir o'r achosion yn cael eu cydgrynhoi ar gyfer Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) unigol. Ar gyfer yr adroddiad blynyddol hwn, y sgoriau ar draws y Rhaglenni Arolwg Achosion Craidd (CCI) am 2011-212 yw:

<u>Asesu a Chynllunio</u>

Risg o niwed i eraill – asesu a chynllunio – 67%

Tebygolrwydd o aildroseddu – asesu a chynllunio – 67%

Diogelu – asesu a chynllunio – 66%

***Asesu a chynllunio'n gyffredinol – 67%***

<u>Ymyriadau</u>

Amddiffyn y Cyhoedd drwy ostwng i'r eithaf y risg o niwed i eraill – 61%

Gostwng y tebygolrwydd o aildroseddu – 78%

Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc – 74%


***Ymyriadau'n gyffredinol – 72%***

<u>Canlyniadau</u>

Llwyddiant y canlyniadau – 62%

Cynnal y canlyniadau – 78%

***Canlyniadau'n gyffredinol – 67%***




Mae'r canfyddiadau hyn a'r rhai ym mharagraff 3.4 ychydig yn is na'r rhai yn 2010-11 – yn bennaf oherwydd sgoriau is ar draws rhanbarth Llundain, er mai'r rhanbarth hwn oedd â'r perfformiadau uchaf ymhlith y YOT. Bu i'r ddwy ranbarth olaf berfformio'n dda iawn, ond o dderbyn mai dyma ddiwedd rhaglen dair blynedd byddem wedi disgwyl gweld rhai gwelliannau dros y cyfnod o dair blynedd.

**Prif argymhellion adroddiadau CCI**

**3.7**
Fel mae'r canlyniadau uchod yn awgrymu, maes arwyddocaol sy'n parhau'n bwysig i'w gael yn gywir yw'r asesu. Mae asesiadau pobl ifanc yn edrych ar eu bywydau yn gyfangwbl i ganfod beth sydd wedi dylanwadu arnynt i gyflawni trosedd ar yr adeg hon. Dylai gynnwys y person ifanc ei hun yn gwneud hunanasesiad i ganfod dros ei hunan beth fu'n mynd o'i le. Mae llawer o bobl ifanc yn dda iawn am wneud hyn ac mae ganddynt gryn dipyn o fewnwelediad i'r hyn sy'n mynd o'i le. Weithiau gwahoddir pobl ifanc i gwblhau'r gwaith hwn ond wedyn mae'n cael ei anwybyddu yn y dadansoddiad cyffredinol. Mae'r holl wybodaeth hon yn helpu i benderfynu beth sydd ei angen er mwyn gostwng troseddu yn y dyfodol. Os nad yw'r asesiad yn gywir yna mae'r gwaith a wneir yn llai tebygol o gael yr effaith a ddymunir. Gwelsom asesiadau da ond weithiau nid ydynt yn ystyried yr holl wybodaeth a wyddys am y plentyn. O ganlyniad efallai na fydd cynlluniau gwaith yn cynnwys yr ymyriadau cywir. Mae'r sefyllfa'n debyg i feddyg yn gwneud diagnosis – os nad yw'r asesiad hwnnw'n gywir yna efallai na fydd y driniaeth sy'n dilyn yn effeithiol.

**3.8**
Disgwyliwn weld y gwaith wedi ei adolygu – mae'n bwysig gwirio fod yr hyn sy'n cael ei wneud yn gweithio; a yw'r canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni? Mae'r canlyniadau rydym eisiau eu gweld yn cynnwys cwblhau'r gorchymyn llys, gan ostwng y risg o niwed i eraill (h.y. a yw'r person ifanc hwnnw'n debyg o wneud niwed i rywun arall), a/neu leihau'r tebygrwydd o aildroseddu. Yn aml rydym yn canfod naill ai nad yw arolwg yn digwydd neu ddim yn ddigon aml. Mae'n bwysig i'r person ifanc a'r gweithiwr i gymryd saib a gweld beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio – ac os oes angen i newid trywydd.

**3.9**
Weithiau gwelsom asesiadau nad ydynt wedi cymryd ystyriaeth lawn o risg yr unigolyn o wneud niwed i eraill. Digwyddodd hyn yn arbennig yn Llundain ble mae yn benodol, rhai troseddau difrifol a bywydau ifanc cymhleth. Yn aml mae hyn wedi ei gysylltu â bywydau sy'n agored i gryn niwed – ond efallai na chafodd hyn ei ganfod. Mae rhai o'r cynlluniau i reoli'r risg o niwed gan berson ifanc ac i ostwng pa mor fregus yw'r person ifanc heb fod o ansawdd digon da.

**3.10**
Maes arall ble y gall perfformiad fod yn well yw rheolaeth goruchwylio *effeithiol.* Rydym yn gweld rheolwyr yn edrych ar waith sy'n cael ei wneud ac mewn rhai achosion yn gofyn i staff lenwi bylchau, ond weithiau dyna pa mor bell mae pethau'n mynd. Mae'r ymadrodd 'effeithiol' yn bwysig iawn – a yw goruchwyliaeth rheolwyr yn cael effaith ar wella *ansawdd* y gwaith a gyflawnir gyda'r person ifanc yna? Os nad yw, yna yn ein golwg ni nid yw'n effeithiol.

**Safbwyntiau Defnyddiwr y Gwasanaeth**

**3.11**
Yn ystod 2011-12, cwblhawyd 2,189 o holiaduron gan blant a phobl ifanc sy'n ymwneud â YOTau, ar eu safbwyntiau am arolygiaeth YOT.

- Credai 87% o blant a phobl ifanc eu bod yn llai tebyg o aildroseddu o ganlyniad i'w gwaith gyda'r YOT.

- Credai 62% o blant a phobl ifanc fod eu bywydau wedi gwella oherwydd eu gwaith gyda'r YOT.
- Dywedodd 96% o'r plant a'r bobl ifanc fod y gweithiwr YOT wedi ei gwneud yn hawdd iddynt ddeall sut y gellid eu helpu.

**Safbwyntiau'r Dioddefwyr**
**3.12**
Mae bob amser yn fwy anodd i ddal safbwyntiau'r dioddefwyr, ac yn arbennig i gael digon o ymateb i ffurfio barn ddibynadwy. Yn ystod 2011-12, cwblhawyd 529 o holiaduron gan rai a ddioddefodd oherwydd trosedd ac a oedd yn ymwneud â YOTau.


- Cofnododd 86% o ymatebwyr eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a dderbyniasant gan y YOT.
- Adroddodd 92% eu bod wedi cael y cyfle gan YOT i siarad am eu pryderon am y drosedd a/neu y plentyn neu'r person ifanc a gyflawnodd y drosedd.
- Dywedodd 89% fod YOT wedi rhoi sylw i'w diogelwch.

**3.13**
Roedd rhai o'r sylwadau a wnaed gan ddioddefwyr yn cynnwys:

> *"….sicrhaodd y swyddog cyfiawnder adferiedydd, a gysylltodd â ni, fod y broses wedi ei esbonio'n glir a'i gyflwyno i bob ochr. Cymerodd ein anghenion i ystyriaeth a'n cadw'n hyddysg am yr hyn oedd yn digwydd drwyddi draw."*
>
> *"Rydw i'n poeni ychydig gan fy mod wedi gweld y person ifanc a gyflawnodd y drosedd. Rydw i hefyd yn bryderus oherwydd credaf y bydd y troseddwr am ddial arnaf pe bai'n fy nabod."*
>
> *"Roedd y cyfathrebu'n dda iawn bob amser, rydw i'n eithriadol o hapus gyda'r gwasanaeth. Rydw i'n credu y gall y gwasanaeth gael gwell cyhoeddusrwydd am yr hyn y gall ei wneud i' r gymuned. Fe wnaeth y troseddwr ifanc gydnabod fod ei weithredoedd yn anghywir."*

**Adborth Rheolwr Achosion Tîm Troseddau Ieuenctid ar yr arolwg**
**3.14**
Yn ystod 2011-12, cwblhawyd 1008 o holiaduron gan reolwyr achos YOT oedd yn ymwneud â'n harolygiadau.

- Teimlai 96% o ymatebwyr fod trafodaethau gydag aseswyr Arolygiaeth Prawf EM wedi eu cynnal mewn dull proffesiynol, diduedd a chwrtais.
- Teimlai 97% o ymatebwyr fod yr aseswr wedi rhoi adborth ar arfer da iddynt.
- Adroddodd 98% eu bod wedi eu cynghori ar sut i wella eu ymarfer.




**3.15**
Dywedodd y rheolwyr achos iddynt ganfod cyfweliadau'r arolwg o gymorth iddynt wrth iddynt adlewyrchu a gwella eu harferion yn y dyfodol:

> *"Cododd yr Arolygwr nifer o faterion perthnasol ynglŷn â risg a bod yn agored i niwed, y dylid, er eu bod yn fanwl/ac wedi tystiolaethu iddynt mewn mannau eraill, fod wedi eu cynnwys yn yr asesiad gwreiddiol."*
>
> *"Sut i helpu ymarferwyr i archwilio eu hamrywiaeth gyda phobl ifanc. Er enghraifft i chwilio ble y cawsant eu geni, pryd y daethant i Loegr i fyw, beth roedden nhw'n ei gofio am wlad eu mebyd ac felly ymlaen."*
>
> *"I wneud mwy o ddefnydd o amcanion tasg y cynllun oddi fewn i sgrin ymyriadau."*

**Rôl yr Aseswyr Lleol**
**3.16**
Tynnir yr Aseswyr Lleol o staff y YOTau yn y rhanbarth ble cynhelir Arolwg Achosion Craidd (CCI). Maent yn gweithio ochr yn ochr â staff Arolygiaeth Prawf EM yn y timau arolwg ond nid oes ganddynt ran mewn arolygu eu YOTau eu hunain. Rydym yn ddiolchgar am y cymorth a gawn gan Aseswyr Lleol oherwydd ni allem fod wedi arolygu sampl mor fawr o achosion heb eu cymorth. Darparwyd hyfforddiant o ansawdd uchel gan staff Arolygiaeth Prawf EM i helpu'r aseswyr ddeall sut i arolygu achosion – mae hyn wedi rhoi adnodd gwerthfawr i YOTau wrth ddatblygu eu trefniadau mewnol o sicrwydd ansawdd. Dysgodd yr Aseswyr Lleol sut i ddefnyddio ein meini prawf arolygu ac i wybod pa safonau y disgwylid i waith gael ei farnu'n ddigonol. Fel gydag Aseswyr Lleol ar y rhaglen OMI 2, parhaodd adborth yr Aseswyr Lleol ar CCI i fod yn gadarnhaol iawn am yr hyfforddiant a dderbynnir ganddynt a'r gwaith a gyflawnant. Mae llawer yn ei weld o gymorth datblygiad unigol a datblygiad tîm.

**3.17**
Dywedodd Aseswyr Lleol am yr hyfforddiant:

*“Dau ddiwrnod ardderchog ”*

*“Yn gyffredinol, hyfforddiant da iawn a chynorthwyol”*

*“Diolch am hyfforddant effeithiol a deunydd wedi’i gyflwyno’n dda...wedi ei osod yn dda ac yn heriol.”*

*“Gwneud i mi deimlo’n wirioneddol gartrefol a chael fy ngwerthfawrogi”*

**Gweithio gydag Arolygiaethau eraill a’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid**
**3.18**
Drwy gydol 2011-12 buom yn gweithio’n agos â’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) ac wedi cymryd rhan yn y Confensiwn Cyfiawnder Ieuenctid a chynadleddau cyfiawnder ieuenctid eraill.

**3.19**
Fel rhan o Raglen CCI, rydym wedi sefydlu dealltwriaeth gyda’r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) ac yn gweithio’n agos gyda hwy wrth iddynt samplo nifer o’r YOTau ym mhob un o’r rhanbarthau rydym wedi bod yn eu harolygu. Mae canfyddiadau’r ddau ohonom wedyn yn cael eu cyflwyno i bob rhanbarth yn fuan ar ôl ein harolwg olaf yn y rhanbarth hwnnw.

**Ail arolygon**
**3.20**
Ble rydym yn ystyried canfyddiadau’r arolwg yn fater o bryder, rydym yn ail arolygu tua 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad gwreiddiol. Digwyddodd un ail arolygiad yn 2011-12, yng Ngogledd Swydd Lincoln. Dangosodd y YOT gryn dipyn o welliant yng nghanlyniadau’r ail arolwg.

| | Arolwg gwreiddiol | Ail Arolwg |
|---|---:|---:|
| Sgôr Amddiffyn | 37% | 84% |
| Sgôr Risg o niwed | 36% | 81% |
| Sgôr Tebygolrwydd aildroseddu | 43% | 83% |

Mae hyn yn welliant perfformiad ardderchog yn ystod yr amser rhwng y ddau arolwg

**3.21**
Er mwyn cefnogi YOTau sy’n perfformio’n wael rydym wedi cyflwyno fersiwn wedi ei haddasu o ddigwyddiad ein Aseswr Lleol i’r rhai a allai elwa o’r fath waith. Mae hwn wedi ei dargedu at reolwyr ac uwch ymarferwyr gan mai hwy yw’r rhai a all gael y dylanwad mwyaf ar wella ansawdd y gwaith. Rydym wedi cyflenwi pum digwyddiad o’r fath eleni. Rydym hefyd wedi gweithio’n agos gyda’r YJB a allodd gynnig adnoddau i gynorthwyo’r YOTau hynny nad ydynt wedi perfformio’n dda.

**Y Flwyddyn Ymlaen**
**3.22**
Ar hyn o bryd rydym yn datblygu ein rhaglen arolwg nesaf. Bydd hon yn gyfatebol i risg, gyda phenderfyniadau am ble i fynd wedi ei seilio yn wreiddiol ar fesurau canlyniadau cyfiawnder ieuenctid cenedlaethol – hynny yw, cyfraddau’r rhai sy’n

dod i mewn am y tro cyntaf, aildroseddu a gwarchodaeth – wedi eu hatodi gan wybodaeth ychwanegol o ffynonellau amrywiol. O hyn y byddwn yn ymgymryd ag Arolygiadau Llawn ar y Cyd (FJI) mewn chwe ardal y flwyddyn a nifer o ymweliadau Sgrinio Ansawdd Byr (SQS).

**3.23**
Gan weithio gydag Ofsted a'r CQC yn Lloegr, ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) yng Nghymru, byddwn yn ymgymryd ag arolygiadau ar y cyd, wedi eu sylfaenu ar asesiadau achos ond hefyd yn arolygu elfennau o waith rheolaeth, arweinyddiaeth a phartneriaeth. Bydd pob arolwg yn bwrpasol, gan ddibynnu ar y problemau a ganfyddir. Bydd o leiaf un o'r Arolygiadau Llawn ar y Cyd yn canolbwyntio ar feysydd ble mae perfformiadau uchel er mwyn meincnodi perfformiad cadarnhaol, ond bydd pob un o'r lleill yn canolbwyntio'n bennaf ar y rhai sy'n tanberfformio. Bydd ymweliadau Sgrinio Amser Byr yn mynd i nifer o ardaloedd ac yn ychwanegu at yr wybodaeth i benderfynu ar ymweliadau'r FJI. Rydym yn gobeithio cadw ymrwymiad yr Aseswyr Lleol yn y ddau fath o ymweliad. Byddwn yn parhau gyda'n rhaglen arolygu thematig ar y cyd, ond byddwn yn cynnwys rhoi sylw i'r bobl ifanc hynny sydd wedi eu dedfrydu i garchar. Yn ychwanegol, rydym yn cymryd rhan mewn arolwg ar y cyd, wedi ei harwain gan Ofsted ar Ddiogelwch Plant sydd wedi ei gynllunio i ddechrau ym Mis Mehefin 2013.

**3.24**
Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad cyfanred ar y rhaglen CCI yn gyffredinol, gan gynnwys dadansoddiadau drwy nodweddion amrywiaeth.

**CCI: sgoriau "pennawd" am arolygiadau yn 2011- 12**

| Ardal | Amddiffyn | Diogelu'r Cyhoedd – sgôr risg o niwed | Diogelu'r Cyhoedd – sgôr tebygolrwydd aildroseddu |
|---|---|---|---|
| **Bracknell Forest** | 79% | 73% | 74% |
| **Caint** | 59% | 53% | 68% |
| **Wokingham** | 82% | 72% | 79% |
| **Wessex** | 55% | 56% | 64% |
| **Ynys Wyth** | 68% | 79% | 68% |
| **Havering** | 58% | 54% | 69% |
| **Merton** | 53% | 46% | 62% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Hounslow** | 51% | 47% | 66% |
| **Islington** | 47% | 53% | 55% |
| **Enfield** | 75% | 66% | 73% |
| **Tower Hamlets a Dinas Llundain** | 64% | 49% | 71% |
| **Barking and Dagenham** | 75% | 65% | 86% |
| **Hillingdon** | 52% | 47% | 63% |
| **Brent** | 65% | 59% | 62% |
| **Kingston Upon Thames** | 71% | 75% | 73% |
| **Harrow** | 45% | 43% | 53% |
| **Barnet** | 54% | 52% | 63% |
| **Bexley** | 64% | 51% | 66% |
| **Ealing** | 64% | 59% | 67% |
| **Greenwich** | 44% | 42% | 56% |
| **Hackney** | 47% | 43% | 58% |
| **Redbridge** | 80% | 69% | 83% |
| **Newham** | 55% | 46% | 60% |
| **Richmond-upon-Thames** | 78% | 69% | 75% |
| **Camden** | 90% | 86% | 84% |
| **Bromley** | 81% | 75% | 82% |
| **Lambeth** | 50% | 42% | 52% |
| **Lewisham** | 75% | 68% | 80% |
| **Wandsworth** | 58% | 47% | 64% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Southwark** | 66% | 64% | 69% |
| **Croydon** | 65% | 56% | 72% |
| **Haringey** | 62% | 57% | 61% |
| **Gorllewin Llundain** | 77% | 61% | 74% |
| **Waltham Forest** | 68% | 62% | 73% |
| **Sutton** | 80% | 76% | 82% |
| **Thurrock** | 75% | 67% | 76% |
| **Hertfordshire** | 60% | 49% | 67% |
| **Swydd Caergrawnt** | 83% | 73% | 85% |
| **Suffolk** | 83% | 79% | 83% |
| **Peterborough** | 83% | 77% | 86% |
| **Bedfordshire** | 77% | 63% | 76% |
| **Luton** | 75% | 73% | 78% |
| **Norfolk** | 70% | 62% | 75% |
| **Essex** | 73% | 68% | 77% |
| **Southend** | 85% | 73% | 88% |
| **Swydd Gaerlŷr** | 69% | 63% | 71% |
| **Northamptonshire** | 80% | 68% | 76% |
| **Swydd Derby** | 78% | 72% | 79% |
| **Nottingham City** | 81% | 72% | 78% |
| **Leicester City** | 62% | 49% | 68% |
| **Lincolnshire** | 79% | 72% | 85% |
| **Dinas Derby** | 65% | 62% | 69% |
| **Nottinghamshire** | 78% | 73% | 80% |

# 4 AROLYGU GWAITH TROSEDDU: AROLYGIADAU THEMATIG AR Y CYD

**Trosolwg**

**4.1**

Rydym wedi gweithio drwy'r flwyddyn gyda Chyfiawnder Troseddol ac Arolygiaethau eraill ledled Cymru a Lloegr ar ystod o arolygiadau thematig. Mae peth o'r gwaith arolygu hwn yn canolbwyntio ar waith troseddu oedolion yn unig, peth yn gyfangwbl ar droseddu ieuenctid, a pheth ar y ddau faes.

**4.2**

Mae'r arolygiadau hyn wedi'n galluogi i edrych yn benodol ar ardaloedd gwaith dynodedig ac wedi cynnwys archwiliad manwl o ymarfer yn ogystal ag arweiniad strategol a threfniadau partneriaeth sy'n cefnogi gwaith o'r fath. Roedd pob un yn cynnwys argymhellion i wella, ac yn ffurfio rhan o'r Cynllun Busnes Arolygiad Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd 2010-12

**Arolygiadau thematig 2011-12**

**4.3**

Fel rhan o raglen thematig arolygu troseddol ieuenctid cyhoeddwyd ein hadroddiad, *To get the best results,* ar ymyriadau yn y YOTau. Arweiniwyd arolygiadau gennym yn archwilio gwaith y YOTau gyda phlant y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanynt ac sy'n cael llety i ffwrdd o ardaloedd eu cartrefi ac ar y newid i bobl ifanc o YOTau i wasanaethau oedolion. Bydd adroddiadau ar yr arolygiadau hyn yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn galendr hon.

**4.4**

Rydym hefyd wedi cefnogi arolygiadau ar: Oedolion Addas ac argaeledd lle i fyw dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, Cyfiawnder Adferol ac effeithiolrwydd Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant yng Nghymru. Ar wahân i'r eithriad o'r adroddiad ar Gyfiawnder Adferol cyhoeddwyd yr adroddiadau eraill i gyd yn 2011. Yn ychwanegol, cyhoeddwyd adroddiad canfyddiadau cyfanred gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) ar ddarpariaeth gofal iechyd yn y YOTau.

**4.5**

O ran y rhaglen thematig ar y cyd ar waith troseddu oedolion, cyhoeddwyd adroddiadau gennym ar ein harolygiad o waith gyda merched fu'n troseddu, *Equal but different?* ac ar Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA), *Putting the pieces together.* Arweiniwyd arolygiadau gennym hefyd ar Fonitro Electronig a buom yn cefnogi arolygiadau ar faterion sy'n berthnasol i droseddau casineb at bobl anabl ac ar waith a anelir at wella effeithiolrwydd y System Cyfiawnder Troseddol - a chyhoeddir y cyfan yn ystod 2012-13.

**Rhaglen Arolygiad Thematig yr Arolygiaeth Troseddau Ieuenctid (IYO)**

***I gael y canlyniadau gorau:* Arolygiad ar y cyd o Ymddygiad Troseddol, Iechyd ac Addysg, Hyfforddiant ac Ymyriadau Cyflogaeth mewn gwaith Troseddau Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr.**

**4.6**

Gwnaed yr arolygiad hwn ar y cyd gennym gyda'r CQC, Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Ofsted. Ymwelwyd â chwech o YOTau yng Nghymru a Lloegr a buom yn archwilio achosion unigol ble roedd meddylfryd ac ymddygiad neu agweddau at droseddu, iechyd ac addysg, hyfforddiant a materion cyflogaeth wedi eu dynodi fel pynciau a gysylltwyd â throseddu. Buom yn siarad â phobl ifanc am eu profiadau o'r gwasanaethau roeddent wedi eu derbyn a hefyd gyda'r ymarferwyr a'r rheolwyr, ynghyd â chynrychiolwyr yr asiantaethau sy'n bartneriaid.

**4.7**
Darganfuom nad oedd digon o sylw wedi ei roi yn strategol i gynllunio, cyflenwi a gwerthuso ymyriadau i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol, yn genedlaethol nac yn lleol. Roedd angen i YOTau gael mynediad a gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth am 'Beth sy'n Gweithio' wrth wneud ymyriadau'n fwy effeithiol. Canfuom nad oedd YOTau, er weithiau'n cael peth llwyddiant yn ymarferol, ddim yn glir eu hunain sut roeddent wedi cyflawni hyn. Byddai gwell dealltwriaeth o'r wybodaeth a'r ymchwil yn eu galluogi i gael gwell canlyniadau yn y dyfodol.

**4.8**
Cyhoeddwyd yr adroddiad ym Mis Mehefin 2011 ac roedd yn cynnwys yr argymhellion canlynol:

***Dylai'r Adran Addysg, yr Adran Iechyd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sicrhau fod:***

- YOTau â gwybodaeth addas i gefnogi penderfyniadau a wneir yn lleol ar weithredu, cyflenwi a gwerthuso'n effeithiol ymddygiad troseddol, iechyd ac addysg, hyfforddiant ac ymyriadau cyflogaeth.

***Dylai Byrddau Rheoli Tîm Troseddau Ieuenctid sicrhau fod:***

- eu YOT yn dadansoddi sawl ymyriad sydd ei angen yn lleol, ac yn cyflenwi'r ymyriadau hynny.
- cynllunio cynhwysedd a threfniadau gweithredu sy'n cefnogi cyflenwi ymyriadau.
- yn enwi mesurau'r canlyniadau a ddefnyddiwyd i feintioli'r cynnydd a wnaed drwy'r ymyriadau yn eu hymddygiad troseddol, iechyd ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
- ymyriadau'n cael eu gwerthuso a'r canlyniadau'n cael eu defnyddio i arwain gwelliannau yn natblygiadau'r gwasanaeth.

***Dylai Rheolwyr YOT, ymddiriedolaethau, rheolwyr iechyd ac Awdurdodau Lleol sicrhau fod:***

- Staff YOT yn cael yr hyfforddiant perthnasol a'r gefnogaeth yn y ffurfiau y cawsant eu bwriadu
- Cynllunio ymyriadau ble mae'n addas yn integreiddio materion ymddygiad troseddol, iechyd ac addysg, hyfforddant a chyflogaeth.

***Re:Actions:* Trydydd adolygiad o ofal iechyd yn y gymuned, i bobl ifanc sy'n troseddu**

**4.9**
Cynlluniwyd yr arolwg hwn a arweiniwyd gan y CQC gyda chefnogaeth Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf EM (fel rhan o'r brif raglen arolygiaeth graidd o waith troseddau ieuenctid) i ganfod beth oedd wedi newid yn narpariaeth gwasanaethau gofal iechyd yn y gymuned i blant a phobl ifanc oedd wedi troseddu neu oedd yn debyg o droseddu, ers yr adolygiad diwethaf, a gyhoeddwyd yn *Actions Speak Louder* (2009). Ar gyfer yr adolygiad hwn, cymerwyd yr wybodaeth o arolygiadau a holiaduron y CQC o bump o'r naw rhanbarth yn Lloegr.

**4.10**
Cyhoeddwyd yr adroddiad ym Mis Gorffennaf 2011 a dod i'r casgliad fod camre breision wedi eu cymryd ers yr adolygiad diwethaf i adnabod yn effeithiol ac i fynd i'r afael ag anghenion iechyd y plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu neu sy'n debyg o droseddu. Mae bron bob un o'r YOTau erbyn hyn â chytundebau lefel gwasanaeth perthnasol sy'n tanategu'n ddefnyddiol y gwaith ar y cyd gyda'r gwasanaethau iechyd, ac mae'r mwyafrif wedi eu hadolygu a'u diweddaru. Yn ychwanegol, roedd y cyfraniad ar gyfartaledd gan iechyd i gyllidebau YOTau wedi cynyddu.

**4.11**
Nid oedd gwelliant yn amlwg ym mhobman a daeth yr adolygiad i'r casgliad, er mwyn cael gwell canlyniadau iechyd i bobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debyg o droseddu, dylai YOTau, ymddiriedolaethau gofal sylfaenol (neu eu tebyg yn y dyfodol) ac asiantaethau neu sefydliadau perthnasol sy'n ymwneud â'r grŵp hwn o bobl ifanc, sicrhau fod:

- adnoddau darpariaeth iechyd yn YOTau wedi eu cynllunio, eu targedu a'u rhannu'n well.
- gwelliannau i ddarpariaeth iechyd yn yr YOT wedi eu seilio ar wybodaeth iechyd o'r ansawdd flaenaf sydd wedi ei gasglu o wahanol ffynonellau.
- pob person ifanc ag asesiad priodol o'i anghenion iechyd corfforol.
- cynlluniau ymyriadau iechyd ac ymddygiad troseddol wedi eu hintegreiddio'n dda.
- fod mwy o ddefnydd o waith wedi ei seilio ar y teulu ac ymweliadau cartref gan weithwyr iechyd.
- ymarferwyr iechyd a rheolwyr achosion YOT yn rhannu gwybodaeth perthnasol mewn lleoliadau sy'n berthnasol i garchar a chymuned.
- canlyniadau mesurau ar y cyd rheolwyr achos YOT ac ymarferwyr iechyd yn cynnwys canlyniad cyfraniadau iechyd ar ymddygiad troseddol.

**Arolygiaethau ar y Cyd Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant yng Nghymru (LSCB)**
**4.12**
Yn 2008, bu i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Prawf EM, ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM i gyd roi ymrwymiad clir i roi adnoddau ar gyfer arolwg

cenedlaethol ar y cyd o LSCBau i atgyfnerthu natur amlasiantaethol Amddiffyn a Diogelu Plant. Dilynodd rhaglen arwyddocaol o waith ar draws yr arolygiaethau i ddatblygu fframwaith arolygiaeth wedi ei rannu ar gyfer yr LSCBau. I ddechrau bu i'r arolwg a gomisiynwyd gan AGGCC werthuso effeithiolrwydd y 19 LSCBau yng Nghymru gan ddefnyddio fframwaith hunanasesu a dulliau gweithredu gwelliant. Dilynwyd hyn gan waith maes ar y cyd mewn ardaloedd saith awdurdod lleol (peilot a chwech).

**4.13**
Cyhoeddwyd yr adroddiad ym Mis Hydref 2011 a daeth i'r casgliad fod asiantaethau statudol, sefydliadau, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol yn gweithio'n galed yn unigol ac ar y cyd i wneud beth oedd yn waith sy'n gofyn llawer, yn gymhleth ac yn waith anodd o Amddiffyn a diogelu plant. Er hyn, yn gyffredinol nid oedd LSCBau yn cyflawni'n effeithiol eu cyfrifoldebau fel roedd y rhain wedi eu gosod yn Adran 31 (1) o Ddeddf Plant 2004. Yn sylfaenol, roeddent yn ei chael yn anodd dangos sut roeddent yn gwella canlyniadau i blant. Nid oedd un eglurhad nac eglurhad syml am y sefyllfa hon gan fod llawer o ffactorau yn cyfrannu tuag at lwyddiant neu fethiant yr LSCBau.

**4.14**
Cyhoeddodd yr adroddiad lawer o ddulliau sut y gallai LSCBau wella gan gynnwys y ffordd roeddent yn cael eu harwain, eu llywodraethu ac yn cael adnoddau a sut i ddal yr asiantaethau perthnasol i gyfri.

***Adolygiad Arolygiaethau ar y Cyd o drefniadau ac arfer rhyngasiantaethau i amddiffyn a diogelu plant yn Sir Penfro.***
**4.15**
Yn ystod archwiliad AGGCC ac Estyn ar y cyd i drafod a rheoli yr honiadau o drais proffesiynol a'r trefniadau i Amddiffyn a diogelu plant yng ngwasanaethau addysg Cyngor Sir Penfro ym Mis Mehefin 2011, ymddangosodd pryderon am effeithiolrwydd rhyngasiantaethol arferion Diogelu Plant . O ganlyniad penderfynwyd ymgymryd ag adolygiad ar y cyd o arferion rhyngasiantaethol Diogelu Plant gan yr arolygiaethau a fu'n rhan o LSCBau yng Nghymru. Roedd rhan Arolygiaeth Prawf EM yn gyfyngedig i gyflwyno peth gwybodaeth gefndirol.

**4.16**
Cyhoeddwyd yr adolygiad ym mis Tachwedd 2011 a gwnaeth nifer o argymhellion am sut y gellid gwella rheoli honiadau o drais proffesiynol. Cynllunnir arolygiad dilynol.

***Pwy sy'n cadw llygad am y plant? Arolwg ar y cyd o ddarpariaeth Oedolyn Priodol a phlant yn y ddalfa ar ôl eu cyhuddo***
**4.17**
Arweiniwyd yr arolygiaeth hon gan Arolygiaeth Cwnstabliaid EM gyda chefnogaeth Arolygiaeth Prawf EM, y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Ofsted ddarparodd y cyngor a'r ymgynghoriaeth. Ceisiodd yr arolwg asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd gan Oedolion Priodol ac i ba raddau roedd plant a phobl ifanc yn cael eu trosglwyddo i lety awdurdod lleol yn hytrach na chael eu cadw yng nghelloedd yr heddlu ar ôl eu cyhuddo.

**4.18**
Canfu’r arolwg nad oedd y weithdrefn bob amser yn ystyried anghenion y plant a’r bobl ifanc. Roedd yn amlwg fod rôl yr Oedolyn Priodol wedi esblygu dros amser i ganolbwyntio yn gynyddol ar broses, yn fwy nag ar Amddiffyn diddordebau’r plentyn a hyrwyddo eu lles. Yn gyffredinol roedd diffyg eglurder ynglŷn â rôl yr Oedolyn Priodol a’r trefniadau ynglŷn â sut roedd y plentyn neu’r person ifanc yn cael ei drosglwyddo i lety awdurdod lleol yn golygu fod plant a phobl ifanc yn treulio’n hirach nag oedd ei angen mewn amgylchedd amhriodol ac amgylchedd oedd o bosibl yn niweidiol. Nid oedd y system a osodwyd yn ei lle i ddiogelu eu buddiannau  yn gweithio.

**4.19**
Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym Mis Rhagfyr 2011 ac roedd yn cynnwys nifer o argymhellion i wella’r sefyllfa. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i wella llif gwybodaeth ac ansawdd y ddarpariaeth Oedolyn Priodol. Roedd hefyd yn cydnabod yr angen i ddatblygu partneriaethau strategol effeithiol ymhlith yr asiantaethau sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Yn arbennig o berthnasol oedd safle'r rhai sy’n 17 mlwydd oed oherwydd o dan gyfraith y Deyrnas Unedig a Chonfensiynau’r Cenhedloedd Unedig, ystyrir unrhyw un yn blentyn neu’n berson ifanc hyd at 18 mlwydd oed. Fodd bynnag mewn gorsaf heddlu mae unrhyw un sy’n 17 oed yn oedolyn.

### Arolygiadau Thematig ar y Cyd ar Waith Troseddu Oedolion

#### *Equal but different?* Arolwg o’r defnydd o ddulliau eraill ar wahân i garcharu i ferched sy’n troseddu

**4.20**
Gwnaethom yr arolwg hwn gyda’r Arolygiaethau Erlyn y Goron EM a Charchardai EM. Ei bwrpas oedd: i ystyried i ba raddau yr oedd dewisiadau heb garcharu yn cael eu cynnig a chael eu cymryd parthed merched oedd yn troseddu.

**4.21**
Roedd yr arolwg wedi ei seilio ar waith maes a wnaed mewn chwe Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Prawf ac yn golygu archwilio 107 o ffeiliau achos ar ferched oedd wedi troseddu a nifer o adroddiadau cyn dedfrydu.

**4.22**
Cawsom lawer i’w ganmol yn ystod yr arolwg. Roedd yr Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Prawf wedi datblygu fframwaith strategol gadarn i weithio gyda merched oedd wedi troseddu. Roedd cyllid ar gael i gefnogi’r gwaith a wnaed ac i ddatblygu mentrau newydd. Roedd canolfannau cymunedol i ferched, yn arbennig yn cynnig adnodd gwych i ferched oedd yn debygol o droseddu neu aildroseddu. Ar waethaf yr ymdrechion hyn, yn ein barn ni, roedd maint poblogaeth merched mewn carchar yn dal i fod yn bryder. Mae gormod o ferched yn dal i fod yn treulio dedfrydau carchar byr, yn aml am dorri gorchmynion cymunedol a osodwyd arnynt ac na fyddent fel rheol â dedfryd o garchar. Er i ni yn ystod yr arolwg weld enghreifftiau ardderchog o waith gyda merched sydd wedi troseddu, roeddem wedi ein siomi gan ddulliau rhai rheolwyr troseddwyr. Yn rhy aml roeddynt yn caniatáu i fesurau proses a pherfformiad i dra-arglwyddiaethu ar eu meddwl ac roeddynt â diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth greiddiol i weithio’n effeithiol gyda merched.

**4.23**
Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd yn Hydref 2011, yn gosod yr argymhellion canlynol i fynd i'r afael â diffygion ymarferol:

***Dylai Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Prawf:***

- barhau i ganolbwyntio'n ychwanegol ar ferched er mwyn gwneud datblygiadau strategol yn rhan annatod o gyflawni gweithredol drwy ddatblygu mesurau canlyniadau effeithiol a gefnogir gan fonitro, gwerthuso ac arolygiaeth rheolaethol
- cychwyn deialog â'u Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (neu'r hyn sy'n gyfatebol) a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, pan ei sefydlir, i sicrhau fod natur a hyd a lled merched yn y system cyfiawnder troseddol lleol yn cael ei gydnabod drwy gasglu ac archwilio data priodol sy'n berthnasol i rywedd
- gweithio gyda'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, y Byrddau Iechyd a Lles newydd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, pan ei sefydlir, i ymgysylltu â darparwyr ac i gydlynu dull lleol ar y cyd i ostwng aildroseddu gan ferched
- trafod gyda chanolfannau cymunedol merched eu swyddogaethau priodol i sefydlu criteria cyfeirio clir a sianelau cyfathrebu effeithiol, ac i wneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau sydd ar gael i ostwng troseddu gan ferched
- archwilio'r cyfleoedd i sefydlu darpariaeth hyfyw, benodol i ferched ar gyfer gwaith di-dâl a rhaglenni ymddygiad troseddol, yn gweithio ar draws Ymddiriedolaeth ble mae hynny'n briodol
- hwyluso hyfforddiant i ymarferwyr a staff perthnasol eraill ar weithio gyda merched sydd wedi troseddu, gan dalu sylw neilltuol i ddatblygu barn broffesiynol eu staff mewn perthynas â chydymffurfio a gorfodaeth.

***Dylai canolfannau cymunedol merched:***

- dangos y lles pendant i ferched wrth fynychu'r ganolfan drwy gasglu data cefnogol priodol

.

***Rhoi'r darnau at ei gilydd:* Arolwg o Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA)**
**4.24**
Ar y cyd ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM fe wnaethom ymweld â chwe ardal ac edrych ar sampl o 54 achos a reolwyd gan MAPPA. Archwiliasom y broses gyfeirio a'r cynlluniau i reoli'r troseddwyr hyn yn y gymuned a luniwyd mewn cyfarfodydd MAPPA. Wedyn gwnaethom asesu i ba raddau roedd yr asiantaeth oedd yn gysylltiedig â'r rhai oedd wedi troseddu yn gweithredu ac yn cydlynu gweithgaredd wrth ymateb i'r penderfyniadau wnaed yn y cyfarfodydd. Gwnaethom hefyd archwiliad o'r Gofrestr Troseddwyr Treisiol a Rhyw (ViSOR), y

gronfa ddata sy'n cynnwys gwybodaeth am y troseddwyr mwyaf cymwys yn MAPPA.

**4.25**
Yn ystod yr arolwg gwelsom nifer o enghreifftiau o gyfnewid gwybodaeth rhwng asiantaethau, rheolaeth a chyfyngiadau effeithiol o unigolion oedd wedi troseddu ac ymrwymiad clodwiw i weithio gydag unigolion anodd ac anhydrin. Serch hynny, daethom i'r casgliad fod angen i MAPPA esblygu a newid. Roedd angen mwy o eglurder wrth adnabod rôl y prif asiant ym mhob achos, ynghyd â mwy o soffistigeiddrwydd mewn cynllunio rheoli risg a gwell cofnodi gweithredoedd. Y newid mwyaf sylfaenol oedd ei angen, fodd bynnag, oedd i weithgaredd Diogelu'r Cyhoedd symud o fod wedi'i ganoli'n bennaf ar gyfnewid gwybodaeth am unigolyn oedd wedi troseddu i reoli *gweithredol* o'r unigolyn hwnnw drwy'r fframwaith amlasiantaethol. Pan oedd y trefniadau'n gweithio roedd am fod yr holl asiantaethau wedi rhoi darnau o wybodaeth at ei gilydd, asesu lefel y risg a rheoli'r unigolyn drwy gydweithredu.

**4.26**
Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2011 amlinellwyd yr argymhellion canlynol i wella ansawdd MAPPA:

***Dylai'r Bwrdd Rheoli Strategol sicrhau fod:***

- sefydliadau sy'n gweithio oddi fewn i MAPPA yn cael eu galw i gyfrif drwy gadeirydd MAPPA am eu gweithredoedd ynglŷn â throseddwyr sy'n ddarostyngedig i MAPPA.

***Dylai Cadeiryddion cyfarfodydd MAPPA lefel 2 a 3 MAPPA sicrhau fod:***

- prif asiant yn cael ei gydnabod yn glir ar gyfer pob achos ac yn cymryd y prif gyfrifoldeb am reoli'r achos
- cynllun rheoli risg cynhwysfawr, sy'n nodi sut mae'r asiantaethau sy'n rhan yn gweithio gyda'i gilydd i reoli'r risg o niwed a gyflwynir gan unigolyn, yn cael ei lunio ym mhob achos a'i adolygu fel bo'r angen
- strategaethau'n cael eu llunio i ostwng i'r isaf y risg o niwed a gyflwynir gan unigolyn yn y tymor hwy pan na fydd bellach yn ddarostyngol i MAPPA
- cofnodion holl gyfarfodydd MAPPA yn amserol, yn glir ac yn darparu cofnod fanwl gywir o benderfyniadau a gweithredoedd y cytunwyd arnynt.

## Y Flwyddyn Ymlaen

**4.27**
Yn rhan gyntaf 2012-13 rydym yn cyhoeddi adroddiadau o'r arolygiadau y gwnaethom eu harwain ar fonitro electronig, trawsnewid achosion rhwng YOTau a gwasanaethau oedolion, a gwaith gyda Phlant sy'n derbyn Gofal sy'n lletya i ffwrdd o ardal eu cartref.

**4.28**
Byddwn yn parhau i gydweithio gydag Arolygiaethau eraill ac yn cynllunio i arwain nifer o arolygiadau thematig yn 2012-13. Mae'r rhain yn cynnwys arolygiad ar

droseddu rhywiol gan blant a phobl ifanc ac ar blant a phobl ifanc sydd wedi eu dedfrydu i garchar. Rydym hefyd yn cynllunio i arwain arolygiadau ar waith gyda throseddwyr sydd wedi eu dedfrydu i oes yng ngharchar, teuluoedd sy'n mynnu sylw, a gydag unigolion sydd wedi troseddu ac sydd wedi cael diagnosis o anableddau neu anawsterau dysgu. Yn ychwanegol, cytunasom i wneud arolwg o drefniadau cyswllt dioddefwr prawf a byddwn yn gwneud astudiaeth cwmpasu i ganfod opsiynau ar gyfer arolwg trefniadau Rheoli Troseddwyr Integredig.

**4.29**
Byddwn hefyd yn cefnogi arolygiadau eraill yn archwilio ailsefydlu (gan gynnwys oedolion a phobl ifanc), trosedd casineb yn erbyn pobl anabl, gwerth am arian ac effeithiolrwydd yn y CJS, a phrofiad y Dioddefwr, ac astudiaeth gwmpasu ar drefniadau i gefnogi atebolrwydd lleol.

**4.30**
Yn ystod y flwyddyn byddwn hefyd yn gweithio i ganfod pynciau posibl ar gyfer arolwg yn y blynyddoedd dilynol. Mae hyn yn debygol o gynnwys arolygiadau sy'n archwilio ymddygiad troseddol genethod a pha mor effeithiol mae pobl ifanc sydd wedi cyflawni troseddau yn cael eu rheoli.

**4.31**
Rhoir manylion o arolygiadau ar y cyd ac o Raglen Arolwg ar y cyd ar Gyfiawnder Troseddol yn y Cynllun Arolwg ar y Cyd 2012-14 sydd ar gael ar ein gwefan.

# 5 DIOGELWCH Y CYHOEDD

## Trosolwg

**5.1**

Mae arolygu gwaith Diogelwch y Cyhoedd ac Amddiffyn yn parhau i fod â chanolbwynt neilltuol yn ein rhaglenni arolwg craidd (rheoli troseddwyr a throseddau ieuenctid). Drwy edrych ar ansawdd a phrydlondeb yr holl dasgau unigol sy'n gwneud gwaith Diogelu'r Cyhoedd da, rydym yn asesu a yw staff yn gwneud popeth y gallant o fewn rheswm i gadw risg pob unigolyn o wneud niwed i'r cyhoedd i isafswm. Rhown bwyslais neilltuol ar waith sy'n diogelu'r cyhoedd, a phlant a phobl ifanc rhag niwed, gan na ellir mesur yn hawdd y ddwy agwedd hyn o'r gwaith sy'n perthyn yn agos – ac ar adegau yn denu llawer iawn o bryderon y cyhoedd – drwy unrhyw ddull ac eithrio arolwg annibynnol.

## Sgoriau pennawd mewn rhaglenni arolwg achosion craidd

**5.2**

Yn adlewyrchu ein canolbwyntio ar waith Diogelwch y Cyhoedd ac Amddiffyn, mae Arolwg Rheoli Troseddwyr 2 (OMI 2) a'r rhaglenni craidd CCI yn cynnwys (fel y nodwyd yn rhywle arall yn yr adroddiad hwn) sgoriau 'pennawd' sy'n cynrychioli'r cyfran y risg o waith niwed yn y sampl a farnwyd gennym i fod wedi ei wneud yn ddigon da. Mae'r CCI hefyd, yn yr un ffordd, yn cynnwys sgôr pennawd ar gyfer gwaith Amddiffyn. Yn y rhaglen OMI 2, mae'n pwyslais ar y risg o niwed i eraill: gan hynny, mewn achosion perthnasol, rydym yn canolbwyntio ar Amddiffyn Plant, yn hytrach nag ar agweddau ehangach o Ddiogelu Plant.

## Gwella arfer a gwaith arall

**5.3**

Yn ystod 2011-12 rydym wedi gweithio gyda sawl Ymddiriedolaeth a YOTau i helpu i wella arfer ar waith Diogelu'r Cyhoedd a gwaith arall, drwy ddarparu cyfle i staff allu cymharu eu harfer eu hunain â meincnod sydd wedi ei sefydlu yn genedlaethol. Rydym hefyd wedi parhau i weithio gyda NOMS a gyda'r YJB i sefydlu dealltwriaeth a rennir am yr hyn sy'n gwneud gwaith Diogelu'r Cyhoedd da. Fel y nodwyd ym Mhennod 2, rydym hefyd wedi parhau i weithio gyda NOMS drwy gymryd rhan yn y panel Sicrhau Ansawdd ar gyfer adolygiadau Troseddu Pellach Difrifol.

## Y Flwyddyn o'n Blaenau

**5.4**

Byddwn yn parhau i bwysleisio problemau diogelwch y cyhoedd yn y rhaglenni newydd, ar droseddu oedolion ac ieuenctid. Ymysg pethau eraill bydd y rhaglenni newydd yn parhau i gynnwys sgoriau lefel uchel am waith diogelu'r cyhoedd.

**5.5**

Darnau penodol o waith yn 2012-13 fydd ein rhan yn yr arolwg ar y cyd o ddiogelu plant yn Lloegr, a arweinir gan Ofsted, i gael ei ddatblygu yn ystod 2012-13 a'i weithredu o ganol 2013. Hefyd y gwaith sy'n parhau gydag Arolygiaethau Cymru i hyrwyddo diogelwch plant yng Nghymru (gweler paragraffau 4.12-4.16), sy'n cynnwys ein rhan mewn arolwg dilynol.

# 6 EDRYCH YMLAEN

**Ein Dull Cyffredinol**
**6.1**
Bydd ein dull cyffredinol gwaelodol ar gyfer 2012-13 yn parhau, fel yn ddiweddar yn ystod y blynyddoedd blaenorol, i fod yn asesiad o ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith troseddu oedolion a phobl ifanc mewn sampl cynrychioladol o achosion penodol. Byddwn yn parhau i farnu pa mor aml roedd agweddau penodol o'r gwaith wedi cael ei wneud yn ddigon da gyda phob unigolyn mewn sampl cynrychioladol o'r achosion.

**6.2**
Byddwn yn parhau i fabwysiadu'r dull hwn ym mhob un o'n arolygiadau, y rhai sydd yn ein perchnogaeth ein hunain a'r rhai rydym yn gydberchnogion arnynt gydag Arolygiaethau eraill.

**6.3**
Byddwn yn parhau i gyfeirnodi ein gwaith yn erbyn y deg Egwyddor ar gyfer Arolwg (2003), er y byddwn yn parhau i'w gweithredu gyda gofal arbennig yng nghyd-destun penodol y System Cyfiawnder Troseddol. Gellir gweld y rhain yn Atodiad B ynghyd â'r datganiad o sut y byddwn yn cwrdd â hwy mewn termau penodol.

**Rhaglen waith ar gyfer 2012-13**
**6.4**
Mae gan ein rhaglen waith arolygu ar gyfer 2012-13 y prif elfennau isod (a ddisgrifiwyd mewn mwy o fanylder mewn penodau blaenorol):

***Arolygu gwaith troseddau oedolion***

- Pum arolygiad yn rhaglen Arolwg Rheoli Troseddwyr (OMI 2), i gwblhau'r rhaglen yn Hydref 2012. Byddwn hefyd yn gweithio ar y cyd gydag Arolygiaeth Carchardai EM i arolygu ansawdd gwaith rheoli troseddwyr ym mhob un o'r sefydliadau carchar ble mae Arolygiaeth Carchardai EM yn gwneud arolwg llawn yn 2012-13.
- Datblygu ac ymgynghori ynglŷn â rhaglen arolygu newydd gwaith troseddu oedolion.

***Arolygu gwaith troseddau ieuenctid***

- Y set ddechreuol o Arolygiadau Llawn ar y Cyd a chyfres o Sgrinio Ansawdd Byr yn dechrau ym mis Medi 2012.

***Arolygiadau thematig***

- Cwblhau a chyhoeddi, gydag Arolygiaethau eraill, yr arolygiadau thematig ar y cyd a gydlynwyd gan Wasanaeth prawf EM ar:
  - monitro electronig
  - trawsnewid achosion rhwng trefniadau troseddau ieuenctid a'r gwasanaeth prawf
  - cyfiawnder adferol

    - gweithio gyda Phlant sy'n derbyn Gofal sy'n lletya i ffwrdd o ardal eu cartref
    - gweithio gyda phlant a phobl ifanc a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol.
  - Symud ymlaen arolygiadau a gynlluniwyd ar y cyd, a arweinir gan Arolygiaeth Carchardai EM, ar:
    - carcharorion sydd wedi eu dedfrydu am oes
    - gweithio gyda phobl sydd wedi troseddu ac sydd ag anableddau ac anawsterau dysgu
    - teuluoedd sy'n mynnu sylw.
- Adroddiadau cwmpasu ar:
    - adolygu gwaith cyswllt â dioddefwyr
    - dewisiadau ar gyfer arolwg Rheoli Troseddwyr Integredig
    - arolwg trefniadau i gefnogi atebolrwydd lleol.
- Cefnogi arolygon eraill ar y cyd gan archwilio ailsefydlu (oedolion a phobl ifanc), trosedd casineb tuag at bobl anabl, 'Gwerth am Arian' ac effeithiolrwydd yn y CJS, a Phrofiad y Dioddefwr.


***Gwaith 'diogelwch cyhoeddus' (h.y. gwaith i ddiogelu'r cyhoedd ac i ddiogelu plant)***

  - Gweithio gydag Ofsted i ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr arolwg Diogelu Plant maent yn ei arwain, a fydd yn dechrau ym Mehefin 2013.
  - Gwneud unrhyw adolygiadau neu ymholiadau yn unol â chais Gweinidogion neu eraill.

**Dyraniad Adnoddau yn y dyfodol**
**6.5**
Rydym wedi creu 'cyllideb' o tua 31,500 o 'oriau arolygu' y gellir eu trefnu ar gyfer 2012-13 ac wedi eu dyrannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Troseddu oedolion | 11,000 |
| Troseddu ieuenctid | 8,500 |
| Arolygiadau thematig | 7,500 |
| Diogelwch cyhoeddus | 4,500 |
| **Cyfanswm** | **31,500** |

Felly, bydd gwaith ar raglen oedolion sy'n troseddu yn cymryd 35% o'r oriau y gellir eu trefnu, a gwaith ar y rhaglen ieuenctid sy'n troseddu yn cymryd 27%.




Bydd y mwyafrif llethol o'n gwaith arolygu yn 2012-13 yn parhau i fod yn waith arolygu ar y cyd o un math neu'i gilydd, gan weithio gydag Arolygiaethau sy'n bartneriaid mewn gwahanol cyfuniadau.

**Costau Gwasanaeth Prawf EM**
**6.6**
Ein costau amcanol fesul awr arolygu y gellir eu trefnu ar gyfer 2012-13 fydd £118, yr un fath ag yn 2011-12.

**Crynodeb**
**6.7**
Erbyn diwedd Mawrth 2013, byddwn wedi cwblhau ein amserlen o arolygiadau, gan gynnwys ein cyfraniad i'r Rhaglen Arolygu ar y Cyd, ar amser, yn unol â'r gyllideb ac i safon dda. Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi darparu sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd, ac wedi cyfrannu tuag at welliant tymor hir yn ansawdd ac effeithiolrwydd y gwaith gydag oedolion a phobl ifanc sydd wedi troseddu.

## ATODIAD A
## AROLYGIAETH PRAWF EM: DATGANIAD O DDIBEN A CHOD YMARFER

### Datganiad Diben

Mae Gwasanaeth Prawf EM yn Arolygiaeth Annibynnol, a gyllidir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder  ac sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ein pwrpas yw:

- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar effeithiolrwydd y gwaith gydag oedolion, plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu gan anelu at leihau aildroseddu, a diogelu'r cyhoedd, pwy bynnag sy'n gwneud y gwaith hwn dan nawdd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer y gwaith hwn, gan weithio gydag Arolygiaethau eraill fel bo'r angen
- cyfrannu tuag at berfformiad gwell gan y sefydliadau rydym yn arolygu eu gwaith
- cyfrannu tuag at bolisi cadarn a chyflawni gwasanaeth effeithiol, yn arbennig mewn Diogelu'r Cyhoedd, drwy ddarparu cyngor a lledaenu arfer da, wedi'i seilio ar ganfyddiadau arolygon, i Weinidogion, swyddogion, rheolwyr ac ymarferwyr
- hyrwyddo'n weithredol gydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth ehangach, yn arbennig mewn sefydliadau ble rydym yn arolygu eu gwaith
- cyfrannu i effeithiolrwydd cyffredinol y System Cyfiawnder Troseddol, yn arbennig drwy waith ar y cyd ag Arolygiaethau eraill.

### Cod Ymarfer

Mae Gwasanaeth Prawf EM yn amcanu i gyflawni ei ddyletswyddau drwy:

- weithio mewn dull onest, proffesiynol, deg a moesgar
- riportio a chyhoeddi ganfyddiadau arolwg ac argymhellion ar gyfer gwella mewn da bryd ac i safon dda
- hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a sylw ehangach i amrywiaeth ym mhob agwedd o'n gwaith, gan gynnwys ein harferion cyflogaeth a phrosesau sefydliadol ein hunain
- ar gyfer y sefydliadau rydym yn arolygu eu gwaith, gan gadw i'r isafswm y gwaith ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i'r broses arolygu.

Wrth wneud ein gwaith rydym yn ymwybodol o flaenoriaethau Gweinidogol a'r deg egwyddor o arolygu a gyhoeddwyd yn "*Inspecting for Improvement*" yng Ngorffennaf 2003. Gweithiwn yn agos gydag Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol eraill drwy'r Grŵp Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol, a hefyd gyda'r Arolygiaethau sy'n ymwneud â gweithio gyda phobl ifanc.

## ATODIAD B
## POLISI AR AROLYGU YN Y GWASANAETHAU CYHOEDDUS (2003)

Cymerasom sylw o'r deg egwyddor arolygu, a gyhoeddwyd yn *Inspecting for Improvement* yng Ngorffennaf 2003. Mae'r rhain yn gosod rhai disgwyliadau eang ar ddarparwyr arolygon ac ar yr adrannau sy'n eu noddi. Fel y dangoswyd rydym hefyd wedi eu gwau yn rhan o'n Cod Ymarfer. Rhoddwn gyfrif o'n dull o weithredu'r deg egwyddor yma isod:

1. ***I bwrpas gwella.*** *Dylai fod gofal penodol ar ran yr arolygwyr i gyfrannu at wella'r gwasanaeth a arolygir. Dylai hyn arwain y canolbwynt, y dull, yr adrodd a dilyniant yr arolwg. Wrth lunio argymhellion dylai arolygwr gydnabod perfformiad da a mynd i'r afael ag unrhyw fethiant yn briodol. Dylai arolwg anelu at gynhyrchu data a gwybodaeth sy'n galluogi adrannau i raddnodi cynnydd diwygiadau yn gyflymach yn eu sectorau ac i wneud newidiadau priodol.*

   Anelwn at gyrraedd hyn, nid yn unig drwy fesur yn deg yn erbyn criteria agored, ond hefyd drwy ein hymrwymiad i ymddygiad sy'n 'uchafu'r tebygolrwydd' y bydd ymatebwyr yn cydgerdded gyda ni ar lwybr sy'n gwella eu perfformiad yn barhaol.

2. ***Canolbwyntio ar ganlyniadau,*** *sy'n golygu ystyried cyflenwi gwasanaeth i ddefnyddwyr pen draw'r gwasanaethau yn hytrach na chanolbwyntio ar drefniadau rheoli mewnol.*

   Mae ein methodoleg arolygu prif ffrwd yn canolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflenwi i'r oedolyn neu'r bobl ifanc sydd wedi troseddu. Mae ein rhaglenni arolygu newydd yn cynnwys mwy o bwyslais ar ganlyniadau ac ar gyflenwi ymyriadau.

3. ***Safbwynt defnyddiwr.*** *Dylid gwneud arolwg gan ganolbwyntio'n glir ar brofiad y rhai y darperir y gwasanaeth iddynt, yn ogystal ag ar drefniadau rheoli mewnol. Dylai arolwg annog arloesi ac amrywiaeth, ac nid cael ei seilio yn unig ar gydymffurfio.*

   Elfen arwyddocaol yn ein methodoleg yw gwrando ar safbwynt unigolion sydd wedi troseddu, ac ar dioddefwyr a rhieni/gofalwyr. Mae safbwynt y defnyddiwr yn elfen bwysig mewn arolwg CJS, ond <u>nid</u> yw o anghenraid ar ei ben ei hun yn sail i ganfyddiad mewn arolwg (ee gallai unigolyn gasáu yn arbennig rywbeth a wnaed iddo ef neu hi gan ymarferwr y Gwasanaeth Prawf neu ymarferwr YOT, ond gallai hynny fod yr union beth iawn i'r swyddog hwnnw fod wedi ei wneud).

4. ***Yn gymesur i risg.*** *Dros gyfnod o amser dylai arolygwyr addasu hyd a lled arolygon yn y dyfodol yn ôl ansawdd y perfformiad gan y darparwr gwasanaeth. Er enghraifft dylai perfformwyr da gael llai o arolygiadau er mwyn canolbwyntio adnoddau ar yr ardaloedd ble mae'r risg ar ei uchaf.*

   Mae gennym amheuon am y syniad o gynnig 'gwyliau rhag arolygon' fel dull o weithredu'r egwyddor hon, ond rydym yn cefnogi'n gryf y syniad o amrywio

dwyster yr arolwg yn ôl yr angen a ganfuwyd. Felly rydym yn canolbwyntio’r arolwg ar ble mae methodoleg arolwg yn benodol yn ychwanegu gwerth – gan hynny, rydym yn canolbwyntio yn arbennig ar waith Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd – ac rydym yn cynnal ail arolygiadau ble mae arolwg yn dangos pryderon arwyddocaol yn unig.

5. *Dylai arolygwyr annog **hunanasesiad** trwyadl gan reolwyr. Dylai arolygwyr herio canlyniadau hunanasesiadau rheolwyr, eu hystyried yn y broses arolygu a darparu meincnod cymharol.*

   Mae’r criteria a’r canllawiau a gyhoeddir ar ein gwefan yn galluogi unrhyw ymarferwr neu reolwr i asesu ei ymarfer ef neu hi unrhyw bryd. Ymhellach, mewn datblygiad a gynlluniwyd ers tro, anelwn i weithio gyda NOMS a’r YJB er mwyn hyrwyddo cyfundrefnau sy’n cyfuno hunanasesiadau gydag arolwg a meincnodi annibynnol.

6. *Dylai arolygwyr ddefnyddio **tystiolaeth ddiduedd.** Dylai tystiolaeth, pa un ai yw’n feintiol neu’n ansoddol, gael ei ddilysu a bod yn gredadwy.*

   Rhaid i dystiolaeth gynnwys mwy nag adroddiad ail-law, ac mae ein Canllaw yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud dyfarniadau i alluogi tystiolaeth debyg i gael ei dehongli’n gyson, er enghraifft gan wahanol staff mewn lleoliadau gwahanol.

7. *Dylai arolygwyr ddatgelu unrhyw **griteria** maent yn eu defnyddio i wneud dyfarniadau.*

   Cyhoeddir ein criteria arolwg ar ein gwefan.

8. *Dylai arolygwyr fod yn **agored** am eu prosesau, yn fodlon derbyn unrhyw gŵyn o ddifrif, ac yn gallu dangos proses sicrhau ansawdd gadarn.*

   Mae’n hymddygiad yn un ble gallwn egluro ar y pryd yr ymresymu am y sgoriau y gwnaethom eu rhoi, ac ymateb i gwestiynau amdanynt. Felly rydym wedi ymateb i gwestiynau a phryderon a gawsom yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym hefyd yn arwain, drwy ein Strategaeth Sicrhau Ansawdd, i adolygu’n weithredol agweddau o’n methodoleg, er mwyn i ni fod mor hyderus â phosibl fod ein dyfarniadau yn deg ac yn fanwl gywir.

9. *Dylai arolygwyr fod yn ystyried **gwerth am arian,** gan gynnwys eu rhai eu hunain:*

   - *Mae’r arolwg yn chwilio os oes trefniadau i gyflawni’r gwasanaeth yn effeithlon ac yn effeithiol.*
   - *Dylai’r arolwg ei hun allu dangos ei fod yn cyflawni manteision sy’n gymesur â’r gost, gan gynnwys y gost i’r rhai oedd yn cael eu harolygu.*
   - *Dylai arolygiaethau sicrhau fod ganddynt y gallu i weithio gyda’i gilydd ar faterion trawstorri, er budd mwy o effeithiolrwydd cost ac er mwyn lleihau’r baich ar y rhai a arolygwyd.*

Rydym yn asesu pa un ai yw'r ymyriadau gyda phob un a droseddodd yn gymesur â'r gost ac i anghenion personol yr unigolyn. Rydym yn cydnabod fod ein methodoleg ychydig yn llafurddwys, ond mae hyn yn briodol er mwyn asesu ansawdd yr ymarfer rheng flaen nad oes modd ei asesu drwy unrhyw ddull arall. Mae'r gost i'r cyrff sy'n cael eu harolygu yn fach. Rydym nid yn unig yn gwneud arolygiadau ar y cyd ag Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol eraill, ond rydym hefyd yn cydlynu ein gwaith er mwyn osgoi, er enghraifft, ymweliadau aml y naill ar ôl y llall gennym ni a chorff craffu arall, pryd bynnag mae hynny'n bosibl. I'r pwrpas hwn rydym yn cydweithio'n agos ag Ofsted oherwydd ein gwaith arolygu troseddau ieuenctid, a hefyd gyda chyrff Archwilio wrth gynllunio ein hymweliadau â'r Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Prawf.

10. *Dylai arolygwyr **ddysgu yn wastad** o brofiad, er mwyn dod yn gynyddol effeithiol. Gellir gwneud hyn drwy asesu eu heffeithiau eu hunain ar allu'r darparwr gwasanaeth i wella, a drwy rannu arfer gorau ag arolygwyr eraill.*

    Rydym yn chwilio am adborth ar ein cyfweliadau unigol â staff cyrff a arolygwyd, ac rydym yn eu defnyddio i adolygu ac adnewyddu ein sgiliau a'n dulliau corfforaethol ac unigol. Rydym hefyd yn derbyn adborth mewn digwyddiadau rhanbarthol. Drwy'r dulliau hyn a rhai eraill rydym yn monitro ein heffaith ein hunain ar y cyrff a arolygwyd ac yn cadw ein hymarfer ein hunain dan adolygiad cyson, fel rhan o'r rhaglen arferol a hefyd mewn gwaith ar y cyd ag Arolygiaethau eraill.

## ATODIAD C
## STAFF AROLYGIAETH PRAWF EM AR 31 MAWRTH 2012

**Prif Arolygydd EM**
Liz Calderbank

**Prif Arolygwyr Cynorthwyol EM**
Julie Fox
Sally Lester
Peter Ramell
Andy Smith

**Arolygwyr EM**
Jane Attwood
Mark Boother
Vivienne Clarke
Helen Davies
Bobbie Jones
Yvonne McGuckian
Ian Menary
Joy Neary
Caroline Nicklin
Richard Pearce
Anne Proctor
Helen Rinaldi
Tony Rolley
Nigel Scarff
Joseph Simpson
Les Smith
Steve Woodgate

**Aseswyr Ymarfer**
Lise Bird
Ian Cavanagh
Helen Morton
Melanie Peace
Katie Ryan
Cliff Warke

**Arolygwyr Cysylltiol (y telir ffi iddynt)**
Helen Boocock
Sheila Booth
Rose Burgess
Paddy Doyle
Krystyna Findley
Martyn Griffiths
Keith Humphreys
Martin Jolly
John Llewellyn-Thomas

Iolo Madoc-Jones
Vivienne O'Neale
Eileen O'Sullivan
Ian Simpkins
Dorothy Smith
Rory Worthington

**Gwasanaethau Cefnogol**

***Rheolwr Rhaglen***
Andy Bonny

***Pennaeth Gweinyddol***
Penny Rickards

***Gwasanaethau Corfforaethol***
Pippa Bennett (Rheolwr)
Jane Regan
Stephanie Olarewaju

***Tîm Cyllid***
Charles Luis (Rheolwr)
Siobhan Fallous

***Tîm Cyhoeddi***
Alex Pentecost (Rheolwr)
Christopher Reeves

***Pennaeth gwybodaeth a Gweithrediadau***
Kevin Ball

***Tîm Cefnogi Arolwg***
Robert Turner (Rheolwr)
Zoe Bailey
Andy Doyle
Robbie Piper

***Tîm Gwybodaeth***
Oliver Kenton (Rheolwr)
Stephen Hunt

***Rheolwr Cysylltiadau'r Wasg a'r Cyfryngau (a rennir ag Arolygiaeth Carchardai EM)***
Jane Parsons

# ATODIAD D
# ADRODDIADAU O AROLYGIADAU GWAITH GWASANAETH PRAWF A THROSEDDAU IEUENCTID A GYHOEDDWYD YN 2011-12

**Sylwer: Mae holl adroddiadau Gwasanaeth Prawf EM ar gael ar ein gwefan http://www.justice.gov.uk/about/hmi-probation**

| **Adroddiadau Arolwg Rheoli Troseddwyr 2 (OMI 2):** | **Dyddiad cyhoeddi** |
|---|---|
| Dorset | Mai 2011 |
| Dyfnaint a Chernyw | Mai 2011 |
| Cymbria | Gorffennaf 2011 |
| Swydd Gaer | Awst 2011 |
| Greater Manchester | Medi 2011 |
| Swydd Gaerhirfryn | Hydref 2011 |
| Glannau Merswy | Hydref 2011 |
| Llundain | Chwefror 2012 |
| Durham Tees Valley | Chwefror 2012 |

| **Arolwg Troseddau Ieuenctid: Adroddiadau Arolwg Achosion Craidd (CCI)** | **Dyddiad cyhoeddi** |
|---|---|
| Swydd Amwythig, Telford a Wrekin | Ebrill 2011 |
| Swydd Warwig | Ebrill 2011 |
| Swydd Caerwrangon a Swydd Henffordd | Ebrill 2011 |
| Birmingham | Mai 2011 |
| Ail arolwg Hartlepool | Mai 2011 |
| Solihull | Mai 2011 |
| Wolverhampton | Mai 2011 |
| Ail arolwg Bournemouth a Poole | Mehefin 2011 |
| Medway | Mehefin 2011 |
| Milton Keynes | Mehefin 2011 |
| Slough | Mehefin 2011 |
| Swydd Rhydychen | Mehefin 2011 |
| Windsor a Maidenhead | Mehefin 2011 |
| Buckinghamshire | Mehefin 2011 |
| East Sussex | Mehefin 2011 |
| West Sussex | Mehefin 2011 |
| Brighton & Hove | Mehefin 2011 |
| Reading | Mehefin 2011 |
| Surrey | Mehefin 2011 |
| West Berkshire | Gorffennaf 2011 |

| | |
|---|---|
| Bracknell Forest | Gorffennaf 2011 |
| Caint | Awst 2011 |
| Wokingham | Awst 2011 |
| Ynys Wyth | Awst 2011 |
| Wessex | Awst 2011 |
| Havering | Awst 2011 |
| Merton | Medi 2011 |
| Islington | Medi 2011 |
| Enfield | Medi 2011 |
| Hounslow | Medi 2011 |
| Tower Hamlets a Dinas Llundain | Medi 2011 |
| Barking a Dagenham | Hydref 2011 |
| Hillingdon | Tachwedd 2011 |
| Brent | Rhagfyr 2011 |
| Kingston-upon-Thames | Rhagfyr 2011 |
| Harrow | Rhagfyr 2011 |
| Barnet | Ionawr 2012 |
| Bexley | Ionawr 2012 |
| Ealing | Ionawr 2012 |
| Greenwich | Ionawr 2012 |
| Hackney | Chwefror 2012 |
| Redbridge | Chwefror 2012 |
| Richmond-upon-Thames | Chwefror 2012 |
| Newham | Chwefror 2012 |
| Bromley | Mawrth 2012 |
| Camden | Mawrth 2012 |
| Lambeth | Mawrth 2012 |
| Lewisham | Mawrth 2012 |
| Wandsworth | Mawrth 2012 |
| Croydon | Mawrth 2012 |
| Southwark | Mawrth 2012 |

| **Adroddiadau Arolwg Thematig ar y Cyd:** | **Dyddiad Cyhoeddi** |
|---|---|
| *To get the best results*: Arolwg ar y cyd o Ymddygiad troseddol, Iechyd ac Addysg, Hyfforddiant ac Ymyriadau mewn Cyflogaeth mewn gwaith Troseddau Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr | Mehefin 2011 |
| Arolwg ar y cyd: *Re:Actions* – Trydydd adolygiad o ofal iechyd yn y gymuned i bobl ifanc sy’n troseddu | Gorffennaf 2011 |

| | |
|---|---|
| Arolwg ar y cyd o Fyrddau Diogelu Plant Lleol 2011 trosolwg | Hydref 2011 |
| *Equal but different?* Arolwg o'r defnydd o ddewisiadau eraill ag eithrio cadw yn y ddalfa i ferched sy'n troseddu | Hydref 2011 |
| *Putting the pieces together* -<br>Arolwg o drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd | Tachwedd 2011 |
| Adolygiad arolygiaethau ar y cyd o drefniadau rhyngasiantaethol i ddiogelu ac amddiffyn plant yn Sir Benfro | Tachwedd 2011 |
| *Pwy sy'n cadw llygad am y plant?* Arolwg ar y cyd o ddarpariaeth Oedolyn Addas a phlant yn y ddalfa wedi iddynt gael eu cyhuddo | Rhagfyr 2011 |

## Atodiad E
## Cyllideb Arolygiaeth Prawf EM am 2011-12

| | **Cyllideb lawn am y flwyddyn (£)** |
|---|---|
| Cyflogau staff | 2,851,000 |
| Staff y telir ffi iddynt | 230,000 |
| Teithio a chynhaliaeth | 490,000 |
| Llety swyddfa Manceinion | 129,000 |
| Hyfforddiant | 45,000 |
| Costau datblygu | 10,000 |
| Argraffu a chostau eraill swyddfa | 145,000 |
| TG a thelathrebu | 112,000 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm gwariant** | **4,012,000** |
| Incwm | 164,000 |
| **Cyllideb gwariant net** | **3,848,000** |

